

ECO'R WYDDFA

Rhif 162

HYDREF 1990

Pris 25c

ANRHYDEDD I IS-SWYDDFA PENISARWAUN




Mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y Swyddfa Bost drwy Ogledd, Canolbarth Cymru a'r Gororau dyfarnwyd Is-swyddfa Penisarwaun y 'bywiocaf a'r gorau' yng Ngwynedd. Caiff nawr ei hystyried ar gyfer anrhydedd o fewn y rhanbarth.

Mae'r bostfeistres Mrs Josephine Rees a'i gŵr Tony wrth eu boddau ac yn ddiolchgar iawn i bobl y pentref a'r cylch am y

gefnogaeth a gawsant tra yr oedd y gwaith ail-wampio mawr yn digwydd.

Yn ystod y pedwar mis ar ddeg diwethaf y mae Mr a Mrs Rees wedi trawsnewid y lle ac wedi ail-gynllunio y swyddfa gan greu dipyn mwy o le i wasanaeth y post a'r rhai i'r siop. Adnabyddir y lle o hyd wrth gwrs fel Siop Gron.

COLIN YMHLITH GOREUON Y BYD



Colin gyda cloch fechan a dderbynai pob rhedwr a Caroline yn gwisgo'r fedel a gafodd am ddod yn ail.

Ydi, mae'r anrhydeddau yn dod i ran Colin Jones o Bontrug yn aml iawn y dyddiau yma. Y ddiweddaraf yw iddo gynrychioli Cymru mewn Ras Cwpan y Byd i rai dan 20 oed a gorffen y 7.5 cilomedr yn yr ugeinfed safle.

Mae gorchest Colin yn un go arbennig gan nad yw ond 16 oed; roedd yn cystadlu yn erbyn gwŷr ieuanc profiadol mewn rhedeg traws-gwlad, rhai ohonynt hyd at dair blynedd yn hŷn nag o.

Roedd timau o 14 o wledydd yn cystadlu a hyd at bedwar rhedwr ym mhob tîm. Colin oedd y Cymro cyntaf i groesi'r llinell. Enillwyr y gystadleuaeth oedd yr Undeb Sofietaidd, gyda'r Eidal yn ail a Lloegr yn drydydd. Unfed-ar-ddeg oedd safle Cymru.

Yn adran y dynion daeth Colin Donnelly o Lanberis, oedd yn cynrychioli yr Alban yn nawfed a Hefin Griffiths 'yn y tridegau

uchaf.

Cynhaliwyd y rasmus yn Telfes yng nghanol mynyddoedd y Tyrol yn Awstria ac roedd rhieni a Caroline, chwaer Colin, wedi mynd yno i'w gefnogi. Heb wybod dim am y peth ymlaen llaw, penderfynodd Caroline redeg mewn ras agored i enethod dan 15 oed — a daeth yn ail! Beth mae'n nhw'n ddweud am bethau'n rhedeg mewn teulu?

CROESEIRIWR

Diolch o galon i Ifor Glyn Efans o Ddeiniolen am ymgymeryd â'r dasg o baratoi croesair yr Eco, gan ddechrau yn y rhifyn hwn. Dyma eich cyfle i ennill £5. Bob mis byddwn yn cyhoeddi, yn ogystal ag enw'r enillydd, bob un a lwyddodd i gwblhau'r croesair yn gywir.

SEFYDLU CÔR MEIBION BRO PERIS



Mae diddordeb mewn corau meibion yn y fro hon, fel mewn nifer o fröydd eraill. Eu cyngherddau yma bob amser yn dennu cynulldeidfa deilwng a nifer dda o ddynion y cylch yn aelodau o gorau fel Caernarfon (Ferodo), Dinas Bangor, a'r Penrhyn. Wel, bellach nid oes raid i'r un tenor na baswr grwydro — y mae côr meibion wedi ei sefydlu ym mro'r Eco.

Daeth Côr Meibion Bro Peris i fodolaeth ym mis Mawrth eleni. Côr ydyw o 22 o aelodau ar hyn o bryd, y mwyafrif ohonynt o Lanberis. Nid cystadlu yw'r prif fwriad ond yn hytrach 'canu pethau ysgafn'. Maent yn barod wedi perfformio bedair gwaith yn nhafarnau Llanberis. Yr arweinydd yw John Huw Hughes a Hefina Wilson Jones sy'n cyfeilio. Byddant yn ymarfer bob nos Lun am 7.30 yn festri Capel Coch, Llanberis.

Mae'r côr angen rhagor o aelodau. Cysylltwch yn syth â'r ysgrifennydd, Ifor Jones, Llanberis 870190.

ECO'R WYDDFA

RHIF 162
HYDREF 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, TACH 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH,

HYDREF 23

os gwelwch yn dda.

YSGOL BRYNREFAIL

Ar ddiwedd tymor yr haf eleni ffarweliodd yr ysgol â nifer o athrawon, rhai ohonynt wedi bod yn yr Ysgol am dymor cymharol fyr, ond mawr yw ein diolchg iddynt am eu gwasanaeth. Penodwyd Mrs Marjory Wroe fel athrawes addysg gorfforol yn 1970 a bu'n hyfforddi llu o ferched mewn ymarfer corff. Dilynwyd hi gan Miss Gwyneth Davies, ond byr fu ei arhosiad ym Mrynrefail gan iddi dderbyn swydd yn Ysgol Eifionydd ar ddechrau'r tymor yma.

Mae'n anodd mesur cyfraniad Mr Alwyn Fleming, Pennaeth yr Adran Gymraeg, ar ôl saith mlynedd ar hugain o wasanaeth i'r ysgol, ond bu ei ddylanwad ar ddisgyblion y fro yn un sylweddol dros ben a'u dyled iddo yn helaeth iawn. Dymunwn yn dda i Mrs Wroe a Mr Fleming ar eu hymddeoliad ac i Miss Davies yn ei swydd newydd.

Croesawn bump o athrawon newydd i'n plith: Mrs Nona Breese, Pennaeth y Gyfadran Iaith a Chymraeg; Mrs Aelwen Ellis Jones i'r Adran Addysg Gorfforol; Mrs Danielle Jones i'r Adran Ffrangeg a Saesneg; Miss Gwenno Bebb i'r Adran Gymraeg a Mr Ceri Cartwright i'r Gyfadran Wyddoniaeth. Hyderwn y byddant yn ymgartrefu yn ein plith yn fuan iawn.

Cafwyd canlyniadau arholiadau hynod o foddhaol eleni gyda dros ddeugain o ddisgyblion yn dychwelyd i'r chweched dosbarth.


Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr lefel 'A' i gyrraedd y colegau o'u dewis. Felly llongyfarchiadau calonog a dymuniadau gorau i holl ddisgyblion y fro, ond yn arbennig efallai i Amllyn Evans ac Einir Angharad Price a lwyddodd i ennill tair gradd 'A' yr un, ac felly mynediad i colegau yng Nghaergrawnt ar y naill law a Rhydychen ar y llall.

Cymaint oedd llwyddiant sioe gerdd yr Urdd '3, 2, 1', penderfynwyd recordio'r perfformiad i'w ddarlledu cyn y Nadolig.

PRIF DDISGYBLION YSGOL BRYNREFAIL



Sharon Williams a Trystan Thomas.



SELWYN GRIFFITH

Dyma ddyfynnu'r sylwadau sydd ar y clawr cefn:

'Dyma gasgliad newydd o ddarnau adrodd i blant gan y Prifardd Selwyn Griffith, awdur sawl cyfrol o gerddi difyr a phoblogaidd i blant o bob oed.

Bydd croeso mawr i'r llyfr hwn ymysg pwyllgorau eisteddfodau led-led Cymru sy'n chwilio am ddarnau adrodd addas i'w cystadleuwyr ifanc.'

Y cyhoeddwyd yw Gwasg Gwynedd, a'i bris yw £2.50.

DATBLYGIADAU DIWEDDARAF GLYN RHONWY

Yn dilyn gwahanol adroddiadau ynglŷn â datblygiad pellach ar safle Glyn Rhonwy, deallwn erbyn hyn mai cwmni o galifornia sydd â diddordeb mewn sefydlu uned fasnachol ar y lleoliad. Deallwn fod Adran Gynllunio Cyngor Arfon wedi derbyn cynllun gan y cwmni o Unol Daleithiau'r Amerig, a bod cyfarfod arbennig o gynghorwyr Arfon eisoes wedi cyfarfod i'w trafod a'u gwyntyllu. Mae gobaith hefyd y bydd y cwmni o Los Angeles yn cyflwyno cais cynllunio o fewn yr wythnosau nesaf.

Os bydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon yn cymeradwyo'r cais, mae'n bosibl y bydd gwaith i rhwng 70 ac 80 o bobl ar y cynllun, gyda'r posibilrwydd o weithlu o tua 200 o bobl yn ddiweddarach.

Nid yw'r cwmni wedi ei enwi hyd yma, ond deallwn ei fod yn arbenigo mewn cynhyrchu offer technegol meddygol. Bydd angen dilyn proses ymgynghori llawn ar y cynllun ac felly, nid oes sicrwydd ynglŷn â pha bryd y bydd y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r datblygiad yn cael ei wneud.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHLIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

PRIODAS AUR



Ar Fedi 7, dathlodd Mr a Mrs W. Iolen Hughes, Tŷ'r Ysgol, Rhiwlas, eu Priodas Aur. Fe'u priodwyd yng nghapel Salem, Caernarfon ar Fedi'r 7fed, 1940, gan y Parchedig Llewelyn Bowyer. Ein dymuniadau cywiraf iddynt ar yr achlysur a phob bendith i'r dyfodol. fel hyn y canodd y Prifardd Selwyn Griffith iddynt:

Mae 'na ddathlu yna yn ôl y sôn
A glywais yng nglust y teleffôn.

Dathlu hapusrwydd y siwrne faith
Ac ail fyw actau drama'r daith.

A'n dymuniad ninnau heddiw yn wir
Yw i'r ddrama barhau yn ddrama hir

Fel y gwelir eich ffrindiau,
cymdogion a'ch plant
Ar lwyfan dathlu drama'r cant.

ANTUR PADARN

Fel ag i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, ac er mwyn i bawb gael digon o rybudd ymlaen llaw, bu i bwyllgor 'Antur Padarn' yn eu cyfarfod diwethaf gytuno mai ar y nos Fercher cyntaf o bob mis y bydd eu cyfarfodydd yn cael eu cynnal o hyn ymlaen. Felly gobeithio y bydd pawb sydd a diddordeb yng ngwaith yr Antur yn nodi hyn ac yn gweld eu ffordd yn glir i fynychu y cyfarfodydd misol hyn.

Mae'r trefniadau ynglŷn â dosbarthu'r holiaduron o gwmpas pentrefi'r ardal yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, mae'r Antur yn ceisio cymorth ariannol ar gyfer talu costau argraffu cannoedd ohonynt, ac ar hyn o bryd mae'n edrych y daw cymorth o fath i law.

Felly ein gobaith yw cyhoeddi yn

llawn yn y rhifyn nesaf o'r Eco beth fydd ein trefniadau ynglŷn â'r holl waith dosbarthu. Anelir at wneud y gwaith yma yn ystod mis Tachwedd.

Hefyd mae bwriad i gynnal cystadleuaeth ar gyfer llunio 'logo' ar gyfer yr Antur. Y gobaith yhw y byddwn yn gallu sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth yr ysgolion lleol (cynradd ac uwchradd) er mwyn cynnal y gystadleuaeth ac fe gyhoeddir yr holl fanylion perthnasol o fewn y mis.

Felly digon i edrych ymlaen amdano a mawr obeithiwn y bydd cynulliad da yn bresennol yn ein cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Hydref 3 yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis am 7.00. Croeso cynnes i bawb.

GLYN TOMOS,
(Cadeirydd).

'PE BAWN I YN ARTIST MI DYNWN LUN...'

Dyna destun rhagair W. Gwyn Lewis i'r ddeuddegfed gyfrol yn y gyfres 'Bro a Bywyd', ac nid oes angen esbonio mai Thomas Rowland Hughes yw gwrthrych y gyfrol ddiweddaraf hon a gyhoeddir gan Gyngor y Celfyddydau am £4.95. Ynddi, ceir dros gant a hanner o luniau a dogfennau yn ymwneud â bywyd a gwaith 'Y dewra' o'n hawduron'.

Mae patrwm y gyfrol yn unol â phatrwm y cyfrolau eraill yn y gyfres — ymgais trwy ddefnyddio llun a gair i bortreadu gyrfa T. Rowland Hughes o droed yr Wyddfa i'w farwolaeth cynamserol yng Nghaerdydd.

Er fod y llyfr yn olrhain gyrfa'r awdur o Lanberis i Fangor, Rhydychen, Aberdâr, Harlech a Llundain, eto'i gyd, naws y gymdeithas glos, chwarelyddol sydd i'w chanfod fel gwythien drwy'r llyfr: y creiriau o gartref a chapel yn Llanberis a ddaeth mor adnabyddus yn ei nofelau. Ond mae dycnwch a dyfalbarhad yr awdur yn wyneb afiechyd yn cael ei ddarlunio yma hefyd.

Dyma gyfrol werthfawr arall yn y gyfres am awduron Cymru ond cyfrol sy'n arbennig o werthfawr i drigolion y fro hon — ac ychwanegiad teilwng i'r casgliad sydd eisoes yn bodoli yn 'Angorfa'.



Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Y DERYN HARDD

Mae'r aderyn rwy'n ei garu,
Mor hyfryd a melys ei lais;
Yn llonyddu fy enaid,
A lladd pob rhyw drais;
Ei lais a'm tawela,
Pan fyddaf yn flin,
A'i gân sydd mor newydd,
Mewn coeden mor grin.

Ei lygaid sy'n loyw,
Fel gwlithoedd y wawr,
Fel perlau y barrug,
Sy'n ddisglair ar lawr;
Ei blu sydd fel sidan,
Mor barchus a hardd;
Mae'n trigo mewn coeden,
Ym mhen draw yr ardd.

Mae'n well ei edmygu,
Yn ei gynefin — o bell!
Na'i weld ef yn agos,
Yn gaeth mewn rhyw gell!
Ei ryddid a barchaf,
Heb chwalu ei nyth,
I dreisio'i diriogaeth,
Ni feiddiaf i byth!

Rwy'n caru'r aderyn,
Sydd ag aur ar ei big,
Agoraf fy nghalon
I'r Tenor o'r brig;
Mae'r cantor yn gadael,
Ei lais yn fy ngho,
Pan glywaf ei ganiad,
Gwirionaf bob tro!

John V. Morris, Rhianfa, Deiniolen

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn:Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi Meinciau Concridd a Phren
Cynnal a Chadw Planters Concridd a Phren
Plannu Coed Corachod

GLASLYN ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS

PRYNIR A
GWERTHIR
Hen Bethau, Darluniau
a Dodrefn y gorffennol

FFÔN:
LLANBERIS
870080

Llafar

CEFNOGAETH I'R BYWYD DIWYLLIADOL

Yn draddodiadol, dyma'r tymor pan fydd y gymdeithas yn dechrau anghofio am ddyddiau hirfelyn tesog, dioglyd yr haf, ac yn dechrau cynllunio ar gyfer cyfarfodydd adloniadol ac addysgol yr hydref a'r gaeaf. Mae pwyllgorau bychan, ond gweithgar, wedi bod wrthi'n brysur yn paratoi rhaglenni eisteddfodau, cymdeithasau llenyddol, dosbarthiadau addysg, a chyfarfodydd amrywiol eraill.

Ond faint tybed sy'n manteisio ar gynnwys y fwydlen gyfoethog hon? Onid y gwir amdani yw mai prin iawn yw nifer y rhai sy'n dilyn yr holl weithgareddau hyn, ac mai llai fyth sy'n cyfrannu i'r gwahanol weithgareddau. Yn wir, pe bai dieithryn i'r ardal yn darllen dalennau'r 'Eco', gallasai'n hawdd dybio mai ychydig gyfarfodydd o Ferched y Wawr, ac ambell i glwb henoed sy'n cyfarfod o fewn y fro, gan mor anarferol yw derbyn adroddiadau am eu cyfarfodydd i'w cyhoeddi. Ac er fod gweld bai ar ieuencid yn hobi tragwyddol gan rai carfannau, rhaid canmol Ffermwyr Ieuainc Caernarfon (sy'n cyfarfod ym Methel) am anfon cyfraniadau rheolaidd a diddorol i'r 'Eco'. Trueni na fyddai cymdeithasau a chyfarfodydd 'hyn' y fro yn dilyn eu hesiampl.

Apêl sydd yn y golofn olygyddol y tro hwn felly: apêl ar i chwi ddarllenwyr yr 'Eco' gefnogi gwahanol weithgareddau diwylliadol eich pentrefi; ac apêl ar i drefnwyr y gwahanol weithgareddau anfon gwybodaeth am eich cymdeithas er mwyn ei rhannu â gweddill y darllenwyr.

YN EISIAU

Help gyda glanhau tŷ yn
ardal Crawia, Llanrug
4 awr yr wythnos
Cysylltwch â: Mrs Roberts
Ffôn: Felinheli 671214

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

EWROSGOL CYMRU

APÊL AM GYFRANIAD NEU FENTHYCIAD

Cynhelir Ewrosgol yn Nwyfor rhwng 3-7 Ebrill 1991. Gŵyl yw hon yn bennaf ar gyfer plant 10-13 oed o Gymunedau Ieithoedd Bychain Ewrop. Bydd tua 600 ohonynt yn dod yma dros y cyfnod i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol ac i ddysgu am yr ardal ac am Gymru.

Er mwyn trefnu rhaglen deilwng ar eu cyfer ac i gynnal yn ogystal Seminarau ac Adloniant ar gyfer pobl leol ac Ymwelwyr fe amcangyfrifir y bydd yr Ŵyl yn costio £79,875 i'w chynnal.

Trefnwyd amryw gynlluniau i godi arian, yn cynnwys Raffl Fawr, Cyngerdd, Pyramid Coffi ac ati yn ogystal â gwneud llu o geisiadau am grantiau a nawdd. Cafwyd tipyn o ymateb cadarnhaol gyda sefydliadau lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd yn cefnogi'r Ŵyl.

Er gwaethaf yr holl ymdrechion yma maent yn dal i fod yn brin o'r nod, ac felly fe'ch gwahoddir yn garedig i gyfrannu arian tuag at Gronfa Gŵyl Ewrosgol Cymru naill ai fel

cyfraniad i'w gadw gan y Gronfa neu fel Benthyciad Di-Log, gyda'r arian i'w ddychwelyd atoch yn llawn ar 1 Medi 1991.

Gobeithia y trefnydd, Gareth James, y gwelwch eich ffordd yn glir i gefnogi'r Ŵyl drwy gysylltu ag o cyn gynted â phosibl ar Llithfaen 334 a gofyn am y ffurflenni perthnasol. Hyn er mwyn sicrhau y cynhelir gŵyl deilwng o Gymru ar ymweliad Ewrosgol ag un o gadarnleoedd un o ieithoedd bychain Ewrop.

DRAENOG



Rhai garw 'di'r ffarmwrs 'ma. Yn sgîl y ffarmwr-fecanic noethlymun 'na y mis diwetha', clywed sôn am ffermwr o blwy arall yn y fro yn dilyn y ffasiwn.

Gimic hwn ydi godro yn ei drôns. Mae ei esgus dros orfod gwneud hyn yn anhygoell! Y teulu wedi cael gwahoddiad i briodas — a pharti i ddilyn yn yr hwyr — ond roedd yn rhaid i! ddod adre cyn y parti i odro. Yn anffodus roedd wedi anghofio allwedd y tŷ, a chan na allai odro yn ei siwt orau (roedd angen honno i'r parti), yr unig ateb oedd diosg ei ddillad a godro mewn trôns a wellingtons. Ar ôl dod yn ôl i'r parti yr eglurodd ei wrqig wrtho fod allwedd y tŷ ar yr un cadwyn ac allweddau'r car!! Wel dyna ydi ei stori o, beth bynnag!

Tybed fydd y godrwr a'r mecanic yn cystadlu yn y Royal Welsh y flwyddyn nesa? Porcyn y flwyddyn!!

AR WERTH

Gorchudd golau; cyfar cwilt; cyfar gobennydd a pâr o lenni (maint 90"x48") i gyd o batrwm 'Pierrot'. Addas i lofft geneth. Pris i'w drafod.
Ffôn: Caernarfon 3515.

dyddiau hyn? Bydd **Gorau Arf** yn siwr o gadw llygad barcud ar yr holl ddatblygiadau, y problemau a'r newyddion diwedddara, gyda Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni Addysg BBC Cymru wrth y llyw unwaith eto.

Ddwy flynedd yn ôl fe gafodd Elinor Jones ei sioe sgwrsio gyntaf ar y radio a'i mwynhau'n enfawr, ac fe brofodd mor ddeheuig ar Radio ac ar y teledu. Mae'n siwr y caiff hithau hwyl ar ei chyfres newydd eleni.

Ymhlith cyfresi poblogaidd eraill sy'n ail ddechrau yn yr Hydref mae Ym Mhen Draw'r Byd, Bwrw Golwg, Cadwyn Cylch, Alaw ac Anian, Atig Taid a Nain, Mae Gen i hawl a Yn ei Elfen.

gwneud ei hól ar y rhaglen gan mai hi sydd wedi bod yn cymryd lle y ddau gyflwynydd pan oedden nhw ar eu gwyliau.

Yn dilyn HEDDIW, mae'r pwyslais yn bennaf ar gerddoriaeth gyda'r cyflwynwyr poblogaidd Aled Sam, Margaret Williams, Ray Gravel, ac Alun Williams. Bydd dilynwyr Sam yn falch iawn i glywed mai ef fydd yn agor a chau'r wythnos, ar fore Llun a bore Gwener!

Mae Maldwyn Thomas wedi tyfu yn un o'n darlledwyr mwyaf dadleuol a gwrando brwd ar LLUNIAU LLIW. Gallwn fentro y bydd Maldwyn mor ffraeth a bachog ag arfer ar fore Llun gyda'i ddewis o westeion lliwgar, bywiog. Pynciau llosg a syniadau sy'n denu Maldwyn, ond gwraig y bobl yw Beti George a does neb gwell na hi i ddenu cyfrinachau oddi wrth ei gwesteion. Mae **Beti a'i Phobol** yn un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd ac ychydig iawn, iawn o bobol sy'n gwrthod y gwahoddiad i sgwrsio gyda Beti a dewis eu hoff recordiau.

Pwy all fforddio peidio ag ymddiddori mewn addysg y

CADEIRIO

Y Gwalch

Roedd yr hen fachgan hwnnw sy' wedi cymeryd lle y Deryn Mawr, ym Mangor y diwrnod o'r blaen. 'Rydach chi wedi mentro ymhell o gartra,' medda fi wrtho fo ar ôl trafod y tywydd a'r cnyda.

'Ar fusnas wyddost ti,' medda fo.

'Mae blewyn da arnach chi,' medda fi wedyn, ei weld o dipyn twtiach na fydd o'n arfar bod.

'Wedi bod o'u blaena nhw ydw i wyt ti'n gweld.'

'Pwy felly?'

'Roeddwn i wedi cynnig am swydd ar y piar 'na yn yr ha'; edrach ar ôl y 'deck chairs' a'i gosod nhw allan o bobl a phetha felly.'

'Oedd 'na lawar yn trio amdani hi?'

'Tri chant achan, ac mi rydw i wedi dwad ar y rhestr fer. Wrth gwrs dydw i'n synnu fawr am hynny. Nid swydd i rhyw gari-dyms ydy hi wyt ti'n gweld. Mae'n rhaid i ti fod yn deall dy betha a gwybod sut i drin pobol. Ond beth bynnag, mi rwyd ti'n cael dy anfon ar gwrs wyt ti'n gweld, cyn dechra.'

'O — a sut beth ydy hwnnw?'

'Wel, mae'n rhaid i ti fod yn gwybod sut i osod y cadeiria neu mi awn i lawr yn chwap o dan y bobol, a pheth arall, mae hi'n reit hawdd i ti bydrdy fodda os na fyddi di'n ofalus.'

'Wel ydy, erbyn i chi ddeud.'

'Cymar di wedyn fod yna rhyw argyfwng. Tasa yna rhyw hen wraig yn cael ei gwasgu mewn cadar yn ei phlygiad a chditha isio galw ar y 'fire brigade' i'w thorri hi'n rhydd, mi allasat reit hawdd fod ymhen draw'r piar wyt ti'n gweld. Mae sefyllfa fel yna yn gofyn am ddyn fedar ddwad i benderfyniad mewn chwinciad, p'run ta rhedag yr holl ffordd i'r ochor yma am y teliffon, ta neidio i gwch yn mynd am Sir Fôn. Petha fel yna sy'n cyfri yn y diwadd wyt ti'n gweld.'

'Mae yna fwy iddi hi na fasa neb yn feddwl felly?'

'Oes yn tad. Ac mi fasa gofyn i ti neud yn siŵr fod yr hen wraig yn dal yno yn dynn wedi ei gwasgu nes y basa'r hogia tân yn cyrraedd. Dydyn nhw ddim yn licio cael eu galw allan i ddim byd, a weli di ddim bai arnyn nhw chwaith.'

'Oeddau nhw yn holi llawar arnach chi?'

'Manwl ofnadwy, a pheth arall oeddau nhw'n rhoi pwys mawr arno fo oedd dy wybodaeth di — hefo pobol ddarth felly wyt ti'n deall. Tasa rhywun fasa ti'n gosod cadar iddo fo yn digwydd gofyn sut yr aetha fo i Fetws y Coed ddeuda ni, mae'n rhaid i ti fedru ei gyfarwyddo fo ar ei union wyt ti'n gweld.'

'Fedwrch chi?'

'Be wyt ti'n feddwl fedra i? Mi

fuo fi'n gyrru gwarthaig i fyny y ffordd yna o Sir Fôn. Eu nofio nhw ar draws o Graig y Don.

'Tewch â deud.'

'Do'n tad. Mi rydw i'n cofio mynd â gyrr o fustych drwy Bethesda yn y fan yna, ac mi droth 'na rai ar fy ngwaetha fi yn fy nannadd i fyny am Braich Melyn ffordd yna. Roedd hi'n braf mi rydw i'n cofio a drysa pawb yn gorad, a dyma un o'r hen fustych 'ma i mewn i rhyw dŷ, ac mi aeth yn sownd yn y pasej. Fedran ni ddim o'i swigiad o naill ffordd na'r llall. Ac mi roedd yna rhyw hen wraig yn byw yno a'i ofn o arni fel gŵr â chledda. Dyna lle roedd hi yn fflat yn erbyn drws y cefn yn methu deud dim.'

'Pam na fasa hi'n ei agor o a dengid allan?'

'Fasa hi ddim mymryn haws wyt ti'n gweld. Roedd yna un arall yn yr ardd gefn.'

'Beth wnaethoch chi wedyn?'

'Doedd yna ddim amdani ond ei adael o yno am wsnos heb lymad iddo fo gael teneuo dipyn. Mi aeth fel rhisglyn ond mi laciodd yn y diwadd.'

'Sut y buo hi ar yr hen wraig?'

'Fuo hi ddim ar ei chollad. Mi gafodd lond berfa o dail at yr ardd ac mi glywais ar ei hôl hi wedyn yn deud na chafodd hi erioed well riwbob.'

'Ond deud oeddwn i am y swydd 'ma ar y piar. Ar ôl i ti fynd drwy dy gwrs mi rwyd ti'n cael cap pig gloew, a bag ar dy sgwydda a thicedi yn dy law. Mae o'n beth â chyfrifoldeb i'w ganlyn o wyt ti'n gweld. A pheth arall, mi fuo raid i mi fynd o flaen y doctor.'

'Sut y daeth hi arnach chi hefo hwnnw?'

'Wn i ddim eto. Disgwl y canlyniada ydw i. Ond mae gen i well siawns na'r cradur hwnnw oedd o fy mlaen i. Roedd ei nyrs o yn racs, biti ei weld o. Mi gawson draffarth i'w berswadio fo dynnu amdano i ddechra, wedyn doedd ddim dichon cael ganddo fo ollwng ei ddillad. Roedd o am fynnu eu dal nhw yn un bwndal ar ei fol.'

'Beth wnaethon nhw hefo fo?' medda fi o ddiffyg dim callach i'w ddweud.

'Roedd y doctor a'r nyrs wedi mynd i dynnu ynddyn nhw yn un pen a fynta yn tynnu yr ochr arall, ac yr oedd ganddo fo un o'r crysa llinyn rheini ddylwiw a dyma hwnnw yn dechra daffod, a daffod wnaeth o nes yr oedd y nyrs wedi mynd allan hefo fo i'r stryd, a ddaeth y llinyn ddim i ben nes yr oedd hi wedi cyrraedd y cloc mawr. Pan ddaeth hi'n ei hôl roedd hi wedi ei ddirwyn o yn bellan ac mi roddodd honno iddo fo pan oedd o'n mynd adra. 'Peidiwch ag anghofio eich crys,'

meddai hi fel 'na.

Gyda hynny, dyma fi'n clywed rhyw lais o'r tu ôl.

'Ydach chi'n barod Hiwi. Cofiwch mai nid yn y dre yr ydach chi heddiw. Mi fydd yn rhaid i ni gael conecsiwn hefo'r Moto Glas ar y Maes.'

'Wel, da boch chi,' medda finna wrth yr hen fachgan. 'cadwch gadar i mi pan ddof i am lwnc o wynt y piar.'

'Mi wnaaf,' medda fo. 'Ond cofia mi fydd yn rhaid i ti ddisgwyl dy dwrn 'run fath a phawb arall.'

THEATR YR AWYR

Mae Radio Cymru yn ymfalchio yn ei record ym myd y ddrama yng Nghymru, yn comisiynnu gweithiau newydd, ynghyd a chynhyrchu dramau clasurol a chyfieithiadau o ieithoedd Ewropeaidd, ac eleni eto mae'n darparu arlwy amrywiol.

I agor y tymor fe geir pedair drama arswyd gan gynnwys un o waith y bardd Gwyn Thomas, **Lleuad yn Olau** ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn, dramau hanner awr yn cynnwys **Y Dienyddiwr**, gan Fernando Arrabel (cyfieithiad Harri Pritchard-Jones), **Mae Tri yn Ormod** gan G. R. Williams a **Dan Ddiwrnod** gan Aled Jones. Cyfres newydd sbon hefyd gan Michael Davies o Abertawe, **Rhyfelgan**, yn seiliedig ar Streic y Glowyr, 1984-85.

Ond uchafbwynt y rhaglen ddrama, mae'n siŵr, fydd addasiad Gwenlyn Parry o nofel arobryn T. Glynne Davies, **MARGED**.

Fe ddaw cyfres gomedi newydd hefyd gan Eirug Wyn, **Jones a Jones** sy'n dilyn hynt a helynt busnes bach argraffu, a chyfres arall yn dilyn hynt a helynt creadigaethau Glyn Ashton, **Tipyn o Annwyd a Hwn a hon a'r Llall**.

Cawn gyfle hefyd i ail-fwynhau detholiad o **Chwedlau Joggers**, a rhyfeddu unwaith eto at ddawn anhygoel y diweddar Gari Williams.

Chwaraeon i Blant yn y Ganolfan Gymuned Llanberis

Mae adain Hamdden Cyngor Bwrdeistref Arfon yn dangos traddodiad mewn darparu plant o fewn y Fwrdeistref gyda chyfle i gyfranogi mewn amrywiaeth o chwaraeon. Yn barod gwelir cyrsiau mewn criced, pêl-rwyd, tenis byr, badminton a phêl-droed wedi eu trefnu yn eu prif ganolfannau yng Nghaernarfon a Bangor.

Gyda'r ail-agoriad diweddar o'r Ganolfan Gymuned yn Llanberis, mae'r Cyngor yn gobeithio paratoi cyrsiau Tennis Byr, Badminton a Chriced i blant lleol o fewn yr wythnosau nesaf.

Os oes gennych ddiddordeb, neu eisiau unrhyw fanylion pellach, cysylltwch â: Mr Aled Roberts, Swyddog Hamdden a Mwynderau (Est 505) neu Mrs Jenny Fletcher, Swyddog Datblygu Chwaraeon (Est 509) ar Caernarfon 673113.

RHODDION

Trwy ryw amryfusedd y mis diwethaf collwyd enw dau gyfaill a anfonodd rodd at Gronfa'r Eco. Ymddiheurwn am hyn a diolch iddynt am eu rhoddion — Gol.

£5: Mrs Eryl Jones a theulu 14 Stryd y Ffynnon, Llanberis.

£2: Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig.

Diolch i'r canlynol y mis yma am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£5: Megan Hughes, 9 Rhes y Faenol, Llanberis; Eifion a Gwyneth, Tŷ Eryri, Llanberis; Teulu'r ddiweddar Mrs M. Rosa Thomas, Berwyn, Llanrug; Teulu Buarthau, Llanrug.

£3: Mr a Mrs D. Jones, 2 Tai Gweledfa, Deiniolen. Mrs Rita Williams, Bethel.

£2: T. A. Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Mr a Mrs J. MacKay, 4 Ceunant St., Llanberis; Shân, Blaen Parc, Bethel.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

**CARPEDI
GLÂN!**
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â
**TEGID
PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291**
Hefyd ail-osod carpedi

**GWILYM H.
WILLIAMS**
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL
Ffôn
Port Dinorwig 670786

 Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

DYMUNA teulu y ddiweddar Mrs M. Rosa Thomas, Berwyn, Llanrug, ddiolch yn gynnes i bawb am bob caredigrwydd a chydymdeimlad yn ystod yr haf eleni.

CYDYMDEIMLIR â Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, ar farwol-aeth ei chwaer ym Mhorthaethwy. BORE SUL yng nghapel Pontrhythallt, gyda'r Parch John Morris yn gweinyddu, bedyddiwyd Jennifer Claire, baban Mark a Christine, Bro Rhyddallt.

LLONGYFARCHIADAU i Glenda a Goronwy Morris, Cefn Rhyddallt, ar enedigaeth mab, Gethin.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gangen am y tymor hwn yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fawrth, Medi 11 dan lywyddiaeth Miss Mary Roberts.

Croesawyd amryw o aelodau newydd i'n plith.

Cydymdeimlwyd â Mrs Megan Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam — y ddiweddar Mrs Rosa Thomas, Berwyn, oedd yn un o aelodau ffyddlon y gangen.

Llongyfarchwyd Mrs Nancy Lovatt a Mrs Joan Griffiths ar enedigaeth wŷr ac wyres.

Y wraig wadd oedd Miss Nan Wyn o'r Waunfawr. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddi am ei phrofiadau tra'n gweithio a chynorthwyo mewn cartref i fechgyn amddifad draw yn Lesotho. Buan y dysgodd Nan mai'r pethau pwysicaf yn eu bywyd oedd 'Heddwch, glaw a chyfeillgarwch', ac yn sicr o adnabod Nan fe gawsant gyfeillies arbennig iawn.

Tra'n teithio yn y wlad bu Mrs Mary Vaughan Jones yn aros am gyfnod gyda Nan a'i ffrindiau, a nos Fawrth bu'r gangen yn ffodus o gael ei chwmmi hithau. Cawsom weld sleidiau bendigedig ganddi a gwrando ar dâp o'r hogia yn canu.

Diolchwyd iddynt gan Miss Phyllis Ellis am noson arbennig. Darparwyd paned gan aelodau'r pwyllgor.

Sylwer mai ar nos Fercher Hydref 3 y bydd y bws yn mynd i Theatr Gwynedd i weld 'Euog Di-Euog' gan Maldwyn Parry. Enwau i Mrs Heulwen Evans, 12 Bryn Eglwys, Penisarwaun (ffôn 872497) erbyn Medi 24. Croeso

cynnes i bawb.

DIOLCH: Dymuna Carwyn Machno, Afallon, 15 Bryn Moelyn, ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniodd o ganlyniad i ddamwain ddechrau gwyliau'r haf. Diolch yn arbennig i'r rhai a gynorthwyodd ar y pryd, gwŷr ambiwlans, a staff Ysbyty Gwynedd.

PLAID CYMRU: Gyda Phyllis Ellis yn y gadair trefnodd pwyllgor Cangen Llanrug a'r cylch raglen y flwyddyn o Fedi 1990 hyd Gorffennaf 1991. Rhown fraslun o'r rhaglen gan addo rhoi rhybudd os bydd newid yn y trefniadau. Bydd y cyfarfodydd ar Nosweithiau Mercher oni nodir yn wahanol.

Hydref 17: Arddangosfa o waith llaw gan Eirian Pritchard yn y Sefydliad Coffa.

Tachwedd 21: Anerchiad gan Dr Deri Thomas yn y Sefydliad Coffa.

Rhagfyr 5: Ffair Nadolig ac ymweliad Santa Clôs yn yr Ysgol Gynradd.

Ionawr: Cyfarfod i'w drefnu.

Chwefror 19: Sgwrs ar Arlunio gan Frank Green yn y Sefydliad Coffa.

Mawrth 1: NOS WENER — Dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

Ebrill 17: Cwis.

Mai 15: Helfa Drysor.

Mehefin 19: Cyfarfod Blynnyddol.

I gychwyn y tymor ar Fedi 19, cafwyd 'Paned a Sgwrs' yn yr Ysgol Gynradd. Croesawyd pawb gan Phyllis Ellis, yn arbennig nifer o ddysgwyr a ddaeth atom i gael ymarfer siarad Cymraeg.

Rhodddwyd y Raffl gan Mrs Heulwen Williams a Mrs Gwen Roberts a ddaeth a dewis da o waith llaw yno i'w arddangos a'u gwerthu. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd Cliff Williams yn barod i dderbyn unrhyw aelod newydd o'r Clwb Cant.

Mae'r tâl aelodaeth yn awr yn ddyledus, fe'i cesglir yn ystod y mis nesaf a bydd croeso i aelodau newydd. Os hoffech fwy o wybodaeth am y gangen, ffoniwch un o'r rhifau canlynol: Waunfawr 200; Caernarfon 5668 neu 4878 neu Llanberis 870237.

YR YSGOL GYNRADD: Mae'n

dymor newydd ac yn amser i ffarwelio a chroesawu. Mae Mrs Ann Roberts eisoes wedi dechrau ar ei swydd fel prifathrawes mewn gofal ar Ysgol Rhydyclafdy. Mae colled mawr ar ei hôl ond dymunwn y gorau iddi ym Mhen Llŷn.

Croesawn Mrs Mair Parry o Garndolbenmaen atom dros dro.

Gwyliau haf digon symol a gafodd Mrs Mary Morris. Cafodd gyfnod yn yr ysbyty ond mae hi bellach adref ac yn gwella. Anfonwn ein cofion ati a dymuno iddo adferiad buan. Daeth Mrs Nant Roberts o Benisarwaun atom i lenwi bwlch.

Ymadawodd Mrs Glenda Morris o'i gwaith yn gofalu am y plant amser cinio. Mae ganddi bellach waith amser llawn yn gofalu am ei mab newydd, Gethin. Llongyfarchiadau mawr iddi hi a chroeso i Mrs Gwenllian Edwards a ddaeth yn ei lle.

Bu'n rhaid ffarwelio â Mrs Blodwen Roberts a fu'n gwneud y gwaith gofalus o groesi'r plant. Croeso i Mrs Murphy sydd bellach yn gyfrifol am y lolipop.

Dymunwn y gorau i Mrs Pat Jones a'i gŵr yn eu menter newydd o gadw siop ym Mangor. Croeso i Mrs Angela Roberts a ddaeth yn ei lle.

Dymunwn yn dda i griw Safon 4 sydd eisoes yn ymgartrefu yn Ysgol Brynrefail. Mae sawl un wedi galw heibio am sgwrs ac i ddangos eu lifrai newydd. Ymgartrefu yw hanes y 25 a ddaeth i'r dosbarth derbyn eleni hefyd. Mae pob un bellach yn dod i'r ysgol dan wenu!

Diolch i bawb am gefnogi yr Ymgyrch Lyfrau. Gwerthwyd 191 o lyfrau; gwerth £581. Daeth yr ysgol yn 4ydd drwy Gymru.

Fel rhan o'u gwaith ar Oleuni y tymor yma, bu Safon 3 yng ngwaith Cynllun Dŵr Dinorwig ac i Oriel Eryri. Daeth Mrs Julie Jones i gynnal gweithdy ar Quilling gyda Safon 4. Bu pawb wrthi'n ddiwyd ac mae'r gwaith gorffenedig yn wertyh ei weld. Diolch yn fawr Mrs Jones. Fel rhan o'u cwrs addysg daeth nifer o fyfyrwyr o'r Iwerddon i ymweld â'r ysgol.

Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Llywodraethwyr ar y 15fed o Hydref. Gobeithir sefydlu Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol ar yr un noson.

BAND: Nos Lun, Hydref 1af, yn Ystafell y Seindorf am 7.00 cynhelir Tombola.

Ar nos Iau, Hydref 18fed am



CARTREF YR HENOED

Cartref Gofrestredig ag iddo awyrgylch Gymreig
Cysylltwch â

Mrs Meirwen Thomas neu Mrs Eli Thomas

**Ffordd yr Orsaf, Lanrug,
Caernarfon (0286)4652**

7.00, cynhelir Noson Goffi. Bydd stondinau amrywiol — prynu a gwerthu, yno hefyd. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei annwyl chwaer Gwen. Diolch am y cardiau. Rhoddion tuag at Gyngor Henoed Cymru.

CYDYMDEIMLWN â Mrs C. Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Bydd cyfarfod cyntaf o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr ar nos Fercher 17 Hydref yn y festri am hanner awr wedi saith (7.30) gyda noson o adloniant gan Barti Rhyd. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu am y tymor. Croeso cynnes i bawb.

GWASANAETH SEFYDLU: Nos Wener y 21ain aeth amryw o deulu a ffrindiau Y Parch W. Bryn Williams i Wrecsam i wasanaeth sefydlu Bryn yn weinidog ar Capel y Groes.

Hyfryd oedd gweld y capel hardd yn orlawn, gyda chynrychiolaeth gref o aelodau o'i hen ofalaeth yn Henaduriaeth Môn yn bresennol. Tystiai rhai o'r siaradwyr fod ei gyfraniad fel gweinidog ar bob rhan o waith yr eglwys wedi bod yn hapus iawn yno, a theimlent chwithdod mawr o'i golli, ond yn dymuno yn dda iddo yn ei ofalaeth newydd.

Rhoddwyd croeso twymgalon iddo i Henaduriaeth Dwyrain Dinbych gan y Llywydd, Y Parch T. H. Glyn Hughes.

Yn ystod y cyfarfod, cafwyd eitemau gan y plant a'r ieuencid, a diweddgo campus gan gôr y capel.

Mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi gan chwiorydd yr Eglwys, cyn ymadael.

MERCHED Y WAWR

Cangen Llanrug

Ymweliad â Theatr Gwynedd
Nos Fercher Hydref 3ydd
Bydd bws yn gadael y sgwâr
am 6.30

Enwau ac arian ymlaen llaw i
unrhyw aelod o'r pwyllgor.

Bydd croeso i unrhyw un nad
yw'n aelod ymuno â ni.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D

L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

MERCHED Y WAWR: Agorwyd tymor newydd y gangen leol yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Medi 12, pryd y croesawodd y Llywydd, Mrs nan Rowlands, aelodau hen a newydd i'r cyfarfod.

Llongyfarchwyd Mrs Eirlys Williams a Mrs Glenys Griffith ar eu llwyddiant mawr yn Sioe Caernarfon. Hefyd llongyfarchwyd mab Mrs Lynwen Morris, sef Carwyn, ar ei lwyddiant efo ceffylau yn Sioeau Llanrwst, Môn a Chaernarfon.

Bu un o'n haelodau yn cystadlu yn bellach i ffwrdd — enillodd Mrs Meinir Roberts gwpan am frodwaith yn Sioe Aberystwyth.

Llongyfarchwyd Mrs Elisabeth Evans ar achlysur priodas ei merch Shân. Hefyd llongyfarchwyd holl blant y pentre a fu yn llwyddiannus yn eu arholiadau, pob hwyl iddynt i'r dyfodol.

Da oedd deall fod Mrs Jean Elis wedi cael dod adref o'r Ysbyty.

I orffen y noson cawsom ein diddanu gan barti Lliwedd, Llanberis, dan ddwylo eu harweinydd Mrs Mattie Hughes.

Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Elisabeth Evans, fe roddwyd y raffl gan Mrs Edwina Morris a Mrs Eryl Roberts, ac enillwyd ef gan Mrs Eryl Roberts.

LLONGYFARCHIADAU i Ceri Hughes, Bron Gwynedd, ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed ar Fehefin 16 ac i Angharad Elis, Cilgeran a fu'n dathlu ei 18 oed ar Awst 12.

PRIODAS: Ar ddydd Sadwrn, Medi 8, yng Nghapel Cysegr M.C., priodwyd Shân, merch Mr a Mrs John R. Evans, Blaen Parc, Bethel, â Michael, mab ieuengaf Mrs Wenda Pollard a'r diweddar Mr J. P. Pollard, 22 Maes Castell, Llanllyfni. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, Y Parch W. R. Williams, a'r organyddes oedd Mrs W. R. Williams.

Rhoddwyd y briodferch i ffwrdd gan ei thad, Mr John R. Evans. Y morynion oedd Ceri, efaill y briodferch, a'i dwy nith fach Einir Evans a Shebhane P. Jones. Y gwas priodas oedd Mr Dafydd Jones, Caernarfon (ffrind).

Yr ystlyswyr oedd David ac Aled Evans, brawd a nai i'r briodasferch a Gerasint Parry a Steven P. Jones, brawd yng nghyfraith a nai i'r briodferch.

Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Gwnaed dillad y morynion bach gan Mrs Eleanor Jones, 22 Cremlyn, Bethel, a'r gacen briodas gan Mrs Mair Jones, Glan Gors, Bethel.

Diolch arbennig i Julie o Fangor a Mrs Anwen Hardwick, Silyn, Bethel am eu cymortyh bore'r briodas.

Bydd y pâr ifanc yn cartrefu yn 102 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni.

DIOLCHIADAU: Dymuna Shân a Michael Pollard, 102 Rhedyw Road, Llanllyfni, ddiolch o galon i'r teulu a'u holl gyfeillion am yr holl anrhegion gwethfawr a'r arian a'r cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas ar Sadwrn, Medi 8fed 1990 yn Eglwys y Cysegr, Bethel. **DIOLCH:** Dymuna Collwyn, Rita, Manon, Meinir a Menna, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad fynegwyd tuag atynt hwy a Mrs Dauncey yn ystod eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iawn. Elan, 4 Tan-y-Cae, Bethel.

DIOLCH: Dymuna Mrs J. E. Elis, Glennydd, 14 Y Ddôl, ddiolch o galon i'w holl gymdogion a chyfeillion am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedyn ar ôl dod adref. Roedd gwybod fod cymaint yn meddwl amdani yn galondid mawr iddi yn ei gwaeledd.

ADDYSGWYR O FRIESLAND YN YR YSGOL



Bu grŵp o addysgwyr o Friesland yn ymweld â Gwynedd yn ddiweddar i astudio y dull o ddatblygu polisi dwyieithog y sir. Ymhlith yr ysgolion y buont yn ymweld â hwy roedd Ysgol Gynradd Bethel.

CYFLENWYR PORTHIAINT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

Y Fachell
Llanddeiniolen

Ffôn:
Port Dinorwig 670439



FIDEO
FIDEO
FIDEO

Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol

JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR
Dyma restr o enillwyr y Clwb 300
am fis Awst: 1, Mr T. A. Thomas,
Gilfach (£40); 2, Mr O. T. Jones,
Bryn Gwenallt (£25); 3, I. Brace-
girdle, 2 Bro Waun (£10).

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Bydd
tymor y gaeaf o'r Gymdeithas
Lenyddol yn cychwyn nos Lun,
Hydref 29 — wedi gwyliau'r
Diolchgarwch — pan ddaw'r
naturiaethwr a'r darlledwr diddan
Ted Breeze Jones atom i roi sgwrs,
gyda sleidiau, ar ryfeddodau byd
natur. Eifion Glyn fydd yn
llywyddu.

Yn ystod y tymor ceir sgysiaid
gan Mary Vaughan Jones, Parch
Iorwerth Jones Owen, Guto
Roberts, Dewi Tomos a noson
hefyd o dan y teitl 'Mae Stori i
Hwn', pan y daw aelodau a rhyw
declyn o'u heiddo sydd a hanes
difyr yn gefndir iddo. Estynnir
croeso arbennig i rai o'r newydd i
ymuno â'r Gymdeithas eleni, yn y
Ganolfan.

CROESO ADREF i Elliw Haf o
Lydaw, a phob dymuniad da i ti i'r
dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU: i Sandra
Griffiths, Tŷ Ni, ar ddathlu ei
phenblwydd yn 21 oed; i Mr a Mrs
David Jones, Lynfod, ar fod yn daid
a nain unwaith eto. ganwyd merch
fach, Ceri Haf i'w merch Glenda a'i
gŵr Eryl, chwaer fach i Gwawr; i
Gerald ac Eira, Bod Gwilym, ar
enedigaeth merch fach, Emma,
chwaer fach i Nicola a gor-wyres
fach i Mrs John Roberts, Dol Erddi;
i Erica, Awel y Grug, Ael-y-Bryn,
am ennill gwobr cystadleuaeth
Eco'r Ifanc y mis diwetha ac hefyd
am ennill y wobwr gynta mewn
cystadleuaeth lliwio llun dan 8 oed
gyda Phapurau'r Herald.

CYDYMDEIMLO: Estynnwn ein
cydymdeimlad dwys â'r canlynol:
Mr Richard Owen, Bro Waun,
Grace, David John a Gwyndaf a'r
teulu yn eu profediaeth lem o golli
priod, mam a nain mor annwyl; Mr
Meirion Jones, Crud yr Awel, yn ei
brofedigaeth o golli ei dad; Mrs
Mwynwen Jones, Tref Eilian yn ei
phrofedigaeth o golli ei chwaer.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref
i Miss Jennie Jones, Bryn Tirion a
Mr Hugh Parry, Bro Waun o'r
ysbyty.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein

cofion cynhesaf at Mrs Katie Wyn
Jones, Bron Eifion, Mrs South-
worth, Gwynant, ac at Mr J.
Jones, Cae Adda, sydd yn yr
ysbyty ar hyn o bryd.

LLONGYFARCHIADAU i Delyth
Jones, Cynnant Lodge ar lwyddo
yn yr arholiad fflwt, Gradd 4.

YMDDIHEURIAD: Ymddiheuraf yn
fawr i Miss C. E. Williams, Is-Eilian
gynt, ond sydd yn awr yng
nghartref Tyddyn Elan, Llanrug, am
roi ei henw yn anghywir yn rhifyn
diwetha'r Eco, ond erys y dymun-
iadau yr un mor gywir. Penblwydd
hapus Anti Katie.

BEDYDD: Yn Eglwys Sant Ioan,
gyda'r Parch Barry Thomas yn
gweinyddu, bedyddiwyd Arwel,
mab bychan Elfyn a Menna
Griffith, Melfyn, Stad Tŷ Hen.

DIOLCH: Dymuna Eric, Rhian a
Fflur, 22 Tref Eilian, ddiolch i'r llu
perthnasau, ffrindiau a chymdog-
ion am yr holl anrhegion a
chardiau, a phob caredigrwydd a
ddangoswyd tuag atynt tra yn yr
ysbyty. Diolch i feddygon a
gweinyddesau Ward Conwy,
Ysbyty Gwynedd, a meddygon a
gweinyddesau Ward Gwynedd,
Ysbyty Dewi Sant, hefyd i
feddygon a gweinyddesau Ward
Gogarth, Ysbyty Gwynedd, i'r
meddyg teulu a gweinyddes y
gymuned.

Dymuna Ffilyr Llywelen, 22 Tref
Eilian ddiolch i Mr Cyril a Mrs Janet
Smith, Rhoslan, am eu gofal drosti
tra roedd mam a dad yn yr ysbyty,

CYFEIRLYFR CYFIEITHWYR YN LLWYDDIANT YSGUBOL

O fewn wythnos i gyhoeddi eu
'Cyfeirlyfr Cyfieithwyr' mae
Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi
dosbarthu dros 2,000 o gopiâu
o'r llyfryn i gyrff cyhoeddus a
chwmnïau masnachol yng
Nghymru, ac mae ymholiadau
yn dal i lifo i mewn yn ddyddiol.

Dywedodd John Walter Jones,
Cyfarwyddwr Bwrdd yr Iaith
Gymraeg: 'Mae'r ymateb wedi
bod yn ffafriol dros ben ac yn
profi bod angen gwybodaeth am
wasanaethau cyfieithu Saesneg-
Cymraeg a Chymraeg-Saesneg
yn y sectorau cyhoeddus a

a diolch i bawb arall am eu
caredigrwydd tuag ati.

DIOLCH: Dymuna Mr T. A.
Thomas, Gilfach, 13 Stad Tŷ Hen,
ddiolch o galon i'w berthnasau,
cymdogion a chyfeillion am eu
caredigrwydd, ac am y cardiau ac
anrhegion a'r galwadau ffôn tra yn
yr ysbyty, ac wedi dod adref.

EISTEDDFOD YR ARDAL: Cynhelir
yr Eisteddfod eleni dydd Sadwrn,
Tachwedd 17, yn y ganolfan, am
12.30 o'r gloch.

Hysbysir yn y siopau lleol pryd y
bydd beirniadu'r cynnyrch gwaith
llaw, coginio ac arlunio.

NEWYDDION YSGOL WAUNFAWR
Ar ôl haf hirfelyn tesog, dyma
ninnau yn trio dygymod â 'sgidiau
ar ôl sandalau a dod yn ôl i'r tresi!
Rydau ni'n falch o groesawu
athrawes newydd i'r ysgol, sef
Miss Siân Owen. Daeth Miss
Owen o Ysgol y Traeth, Y Bermo.
Gobeithio y bydd hi'n hapus iawn
yn ein plith. Croesawyd hefyd gryn
ddwsin o blant newydd i'r
Hafod, ac ambell i gymeriad yn eu
plith. Mor braf ydy teimlo ein bod
yn magu cymeriadau eto yn ein
bro!

DIOLCH: Dymuna Richard D. Owen
a'r teulu ddiolch am bob cydym-
deimlad a ddangoswyd iddynt ar
golli annwyl wraig, mam hoffus a
nain dyner, Maggie Lizzie Owen.
Diolch am y rhoddion ariannol o
£337 a roddwyd mewn cof amdani
i Feddygfa Waunfawr.

EISTEDDFOD YR ARDAL: Taer
erfynnir ar unrhyw berson sydd a
diddordeb yn yr Eisteddfod i
ymuno a'r pwyllgor. Os oes
diddordeb gennych cysylltwch â
Carys Jones, rhif ffôn: 432.

phreifat drwy Gymru i gyd.
Dylem weld cynnydd yn y
defnydd o'r Gymraeg o'i
herwydd'.

Gan mai ychydig iawn o
gopiâu o'r Cyfeirlyfr sydd ar ôl,
bwriad Bwrdd yr Iaith Gymraeg
yw ail-argraffu yn fuan iawn.

Felly, os am gopi, ysgrifen-
nwch at y Bwrdd a byddwch yn
amyneddgar — fe ddaw. Dyma'r
cyfeiriad: Bwrdd yr Iaith
Gymraeg, Cwrt y Groes Hir, 47
Heol Casnewydd, Caerdydd,
CF2 1AD.

Beth am
ddysgu
dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

TACSI CARIAN

- ★ Pell ac agos
- ★ Stesion, Maes
Awyr, Porthladd
- ★ 24 awr y dydd

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

YSGOL TAN-Y-COED: Derbyniwyd dau ddisgybl newydd eto y mis hwn a chreosawn Sam a Katy Horlick i'n plith.

Ar Fedi 19 daeth ymwelwyr o Friesland i'r Ysgol i weld sut mae'r plant yn dygymod â dysgu drwy gyfrwng dwy iaith.

Bydd plant yr Ysgol i gyd yn cael cyfle i dreulio bore cyfan yn y Coleg Normal fore Hydref 8fed a'r 15fed.

Bydd yr Uned Iau yn ymweld â Theatr Gwynedd ar Hydref 9fed i flasuo cynhyrchiad Gwyddonol gan Glwb Molecule.

YSGOL SUL BOSRA: Braf oedd croesawu'r plant yn ôl i'r Ysgol Sul a mawr hyderwn y byddant yr un mor ffyddlon eleni eto. Ar y cyd â phlant Ysgol Sul Eglwys Santes Helen, byddant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd.

Croesewir aelodau Capel Glasgoed sydd wedi ymuno ag aelodau undebol Bosra.

CYMDEITHAS FEIBLAIDD: Cynhelir Gwasanaeth y Plant am 2.00 pm a Chymanfa Ganu am 6.00 pm yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 1.15 pm a 5.15 pm. Gwneir casgliad at y Gymdeithas.

Croeso cynnes i bawb.

GWELLHAD: Ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs M. Rees Thomas, Mrs Nesta Jones, Mrs Gaynor Williams, Mr Ron Hughes a Mrs Davies, Waun Rhythallt.

Gyda'r Hydref wrth y drws, cymerwch ofal i gyd — mae'r aflwydd annwyd eisoes yn blino rhai. Brysiwch wella i gyd.

CYDYMDEIMLAD: Ein cydymdeimlad dyfnaf â Mr a Mrs Hughes a Luke, ac â Mr a Mrs W. H. Griffiths, Tros y Waun, wedi colli anwyliaid. **CLWB YR HEULWEN:** B'nawn Mawrth, Medi 18, croesawyd Mrs Eluned Jones, Cae Corniog a chafwyd amser difyr yn gwrando arni yn adrodd hanes ei gwyliau yn Israel gydag Elinor Jones.

Dymunwyd yn dda i Ann Ifans yn Ysgol Penybryn, Bethesda, ac i'r plant yn y Colegau. Rhoddwyd y te gan Mrs J. M. Jones a Mrs P. Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Gwyneth Jones. Enillwyd y Raffl gan Mrs N. Jones.

GAIR O DDIOLCH: Dymuna'r Pensiynwyr ddiolch o galon i Mrs Janet Hicks, Waun, am ei charedigrwydd — blas da ar y madarch eleni!

Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr fu'n plygu'r Eco yn ystod wythnos olaf y gwyliau, a mawr yw ein diolch i swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd.

NEUADD BENTREF: Tynnwyd Clwb cant Awst yn Sycharth a'r enillwyr oedd: 1, Mr Huw Williams; 2, Mrs Glenys Williams; 3, Mrs C. Williams. Tynnir Clwb Cant Medi mewn Pwyllgor.

URDD BENTREF: Bydd cyfarfod cyntaf yr Urdd am 6 o'r gloch nos Fawrth, Tachwedd 6, i ymaelodi, gyda noson o gân yng nghwmni Mrs Ann Thomas.

Y Swyddogion am y flwyddyn 1990 i 1991 fydd — Arweinydd: Mrs Delyth Williams; Is-Arweinydd: Mrs Elizabeth Jones; Ysgrifenyddes: Mrs Ann Paterson; Is-Ysgrifenyddes: Mrs Elinor Williams; Trysoryddes: Mrs Janice Jones; Is-Drysoryddes: Mrs nant Roberts.

Os oes unrhyw un a fuasai yn barod i'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd yn ystod y flwyddyn nesaf, cysylltwch ag un o'r swyddogion.

Ar nos Wener, Gorffennaf 20fed, cafwyd noson 'Mabolgampau' ar gae Mr Dafydd Morris. Daeth nifer o'r plant ynghyd a chafwyd llawer o hwyl a llond bol o gŵn poeth a hufen iâ.

Eglwys Santes Helen:

GWASANAETH CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Cynhelir y gwasanaeth i Ysgolion Sul y cylch dan nawdd Cymdeithas y Beiblau yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar ddydd Sul, Hydref 7. Bydd disgyblion yr Ysgol Sul yn ymuno â disgyblion Capel Bosra i gyflwyno eitem ar y cyd yn y gwasanaeth.

DIOLCHGARWCH: Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch ar ddydd Sul, 21 Hydref. Bydd Cymun Bendigaid yn y bore am 10.30 gyda'r Parch Tegid Roberts a Gosber am 4.30 pm. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig ganon Gareth Lloyd Jones, Ph.D., Porthaethwy, Canghellor Eglwys Gadeiriol Bangor.

FFAIR GYNHAEAF: Cynhelir Ffair

Gynhaeaf flynyddol yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 pm dydd Llun, 22 Hydref. Bydd stondinau a raffl. Bydd unrhyw elw a wneir yn mynd tuag at gronfa'r eglwys.

YR YSGOL FEITHRIN: Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y Noson Goffi, nos Wener, 21 Medi. Casglwyd oddeutu £100 tuag at Gronfa'r Ysgol Feithrin.

Enillwyr y Raffl oedd: 1, Mrs Ann Jones, Ty'n Gerddi; 2, Mrs Mary Davies; 3, Eifion Harding; 4, Mrs Jean Jones.

Rydym yn falch iawn o gael dweud bod y gwaith oedd angen ei wneud yn Ysgol Tan y Coed yn awr wedi ei gwblhau ac felly bydd

yr Ysgol Feithrin yn dechrau am 9.15 bore Mawrth, Hydref 2.

CYDYMDEIMLAD: Ein cydymdeimlad llwyraf â theulu Carrog, Waun. Collodd Mr Gareth Williams ei fam a'i dad yn ddiweddar.

Wedi cystudd hir, fore Sadwrn, Medi 22, bu farw Mr Nathan Jones, Bryn Hyfryd, gŵr annwyl Mrs Eirlys Jones, tad tyner Brenda a Clifford a thaid hoffus Jonathan a Ken. Ein cydymdeimlad dyfnaf â chwi yn eich colled lem.

GAIR O DDIOLCH: Dymuna Margaret a Gareth Williams, Carrog, ddiolch i bawb am y cardiau a'r galwadau ffôn yn ystod eu profedigaeth o golli dau mor annwyl.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

LLONGYFARCHIADAU i Diane a Vincent Williams, Tan-y-Marian, ar enedigaeth eu merch fach, Cheryl Lianne.

DIOLCH: Dymuna Hilda a Les ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas berl.

CLWB POBL Y CWM: Ar Fedi 13, ail gyfarfu aelodau Clwb Pobl y Cwm wedi cyfnod gwyliau'r haf. Wedi gair o groeso gan y Llywydd, Mr Llew Williams, cafwyd egwyl o Bingo gyda Mrs E. Price yn galw, yna bu'r aelodau yn trafod Rhaglen y tymor, ac ail etholwyd y Swyddogion presennol.

Dymuna'r aelodau anfon eu cydymdeimlad dyfnaf â theulu-oedd y rhai a gollwyd yn ystod yr haf, sef Mr John Phillips a Miss Elizabeth Davies, y ddau wedi eu magu yn y Cwm, hefyd Miss Agnes Hoddle, a fu'n trigo yn y pentref am rai blynnyddoedd, ac a fu'n aelod o'r Clwb am ysbaid.

Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick. Enillydd y raffl oedd Mrs Enid Price, a'i trodd yn ôl i elw'r Clwb.

YR YSGOL GYMUNED: 'Toes eisiau glaw, d'wch. Dyma ni, mewn 'full swing', fel na buo ni o 'ma o gwbl. Mae'r tymor wedi cychwyn a phopeth yn mynd fel 'watch aur'.

Daru chi fwynhau y'ch gwyliau? Cafodd ambell un o'r ysgol yma fynd i Kenya; un arall i Sbaen ond dim ond am b'nawn i fetws y Coed y bum i. Cofiwch, mi wnes

i fwynhau fy hun — diolch i chi am ofyn.

Bu Miss Sian Jones efo ni yn ystod yr wythnos gyntaf yn arsyllu yn yr Adran Iau. Dymunwn yn dda iddi pan fydd y coleg wedi ailgychwyn a gobeithio y bydd yn ffeindio Llynlleifiad mor ddiddorol â Chaerlŷr.

Diolch i bawb am gefnogi y Ffair Lyfrau a gynhaliwyd yn yr ysgol. Gwerthwyd llawer o lyfrau a bydd pawb efo rhywbeth newydd i'w ddarllen yn ystod nosweithiau hir y Gaeaf. Bydd yr ysgol yn elwa o'r gwerthiant a gallwn ninnau gael mwy o lyfrau ar gyfer ein llyfrgell.

Erbyn hyn, mae y gwahanol gymdeithasau wedi dechrau ailgyfarfod yn yr ysgol, felly os ydych am basio rhyw orig fach ddifyr, cofiwch fod Pobl y Cwm, Clwb y Graig a'r Clwb Ieuencid yn cyfarfod fel arfer.

Rhybudd bach ymlaen llaw i chi, cyn cloi. Cofiwch y bydd Cwis Gwybodaeth Gyffredinol, wedi ei drefnu gan Mr Brian Jones, yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar nos Fawrth, Hydref 30ain am 7 o'r gloch.

Os am ddangos faint o wybodaeth diddefnydd ydych yn storio yn eich pen, dowch draw am noson hwyliog a phaned ac, ella, y cyfle i fod yn Ben Mawr (yn y ffordd neisia bosibl) Cwm y Glo.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Gwyn Owen, Craig Wen am fod yn daid a nain. Ganwyd mab bach i Sarah Jane a Kelvin.

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN GAN DDEFNYDDIO Y LLIWIAU PRIODOL

- 1 - COCH
- 2 - GLAS GOLAU
- 3 - OREN
- 4 - BROWN
- 5 - GWYRDD TYWYLL
- 6 - PINC
- 7 - GWYRDD GOLAU
- 8 - MELYN
- 9 - GLAS



CORNEL JÔCS

Athro: Petae gen i ddeg oren
mewn un llaw a saith yn y llall
— beth fyddai gen i?
Wil: Andros o ddwylo mawr,
syr!

Beth ddywedodd un glust
wrth y llall?
Rhyngot ti a mi — mae angen
i ni dorri'n gwallt!

Be gei di wrth groesi dafad a
changarw?
Siwmpwr wlanog!!

Pam fod gwenyn yn hwmian?
Tydi o ddim yn cofio'r
geiriau!

Be gei di wrth groesi eliffant
a changarw?
Tyllau anferth ar draws
Awstralia!

Doctor, doctor — dwi'n
teimlo fel pont!
Beth sy' wedi dod drosoch
chi, ddyn?
Wel, hyd yn hyn — dau gar,
tair lori a bws!!!

Ha ha! Ho ho!

Glywsoch chi'r jôc am y tŷ
gwag?
'Does 'na ddim byd ynddo!

Beth ddywedodd y barnwr
wrth y deintydd?
Ydych chi'n addo tynnu'r
dant, yr holl ddant, a dim ond
y dant!!

Doctor: ydych chi wedi cael
hwn o'r blaen?

Dyn: Do, doctor.

Doctor: Wel, mae'n ddrwg
gen i ddweud hyn, ond rydych
chi wedi'i gael o eto!!

Hi hi! Ha ha-a!

Doctor, doctor, mae 'ngwallt
i yn syrthio allan! fedrwrch chi
roi rhywbeth i mi?
Wrth gwrs y medraf — beth
am gwdyn papur!!

Glywsoch chi am y bachgen a
gafodd ei fedyddio yn 6'8" ?
Pigodd ei dad yr enw o het!!


Beth ddigwyddodd i'r dyn na
allai ddweud y gwahaniaeth
rhwng past dannedd a phwti?
Disgynnodd ffenestri'r tŷ
allan i gyd!!!

Glywsoch chi am yr hogyn
bach da, da, da?
Pob tro roedd o'n dda
cafodd 10c gan ei dad a phat
ar ei ben. Erbyn iddo
gyrraedd deuddeg oed roedd
ganddo £18.70 a phen fflat!!!

OES GEN TI RAGOR
O JÔCS?

ANFON NHW I'R GORNEL
ERBYN Y MIS NESA IAWN?

EWCH O DDOT I DDOT




Pedwar enillydd sydd gennym yng nghystadleuaeth mis Medi:
 Nia Wyn Morris, 20 Llys y Garn, Caernarfon (4 oed)
 Owain Peris Morris, 2 Rallt Goch, Llanberis (5 oed)
 Rhys Peris Morris, 2 Rallt Goch, Llanberis (5 Oed) Efeilliaid efallai?
 Bethan Fôn Jones, Bro Dawel, Rhoslan, Bethel (9 oed).

CYSTADLEUAETH MIS HYDREF

ENW
 CYFEIRIAD


 OED

LLIWIWCH Y LLUN



Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cotractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

GLADRAGS
LLANBERIS

PAM MYND I
GAERNARFON,
BANGOR AC
YMHELLACH
HEFO DILLAD I
BOB OED A
MAINT YMA'N
LLANBERIS AM
BRISIAU BAR-
GEN ?

Be ga i'n bresant?

- Dewch yma am
- * Dillad Merched
- * Dillad Dynion
- * Dillad Plant
- * Dillad Gwlad
- * Mohair ac Aran
- * Dillad Lledr
- * Dillad Isa
- * 'Accessories' fel bagiau
- * a llawer mwy

CYNNIG
ARBENNIG



Yn rhatach os
dangoswch yr
hysbyseb hon

GALWCH I BRYNU BARGEN!

Agor Ffiniau'r Gorffennol 'DYCHWELIAD YR AMEN' (1905 – AMSER Y DIWYGIAD)

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

I'w chanu ar y dôn 'Ple'r Aeth yr Amen?'

Bu Seion am flwyddi yn isel ei phen
Yn holi'n bryderus ple'r aeth yr Amen?
Ond diolch i'r nefoedd fe dorrodd y wawr
Amen sydd yn adsain ar lofft ac ar lawr.
Bendithiol Amen! Nefolaidd Amen!
O! diolch i'r nefoedd am ddeffro'r Amen.

Gwasgarwyd cymylau, a chliriwyd y nen,
Pan drowyd mudanrwydd yn swynol
Amen
Daeth allan o'r galon yn beraidd a chlir
Nes adsain dros Gymru drwy sir ar ôl sir.
Berseiniol Amen! Fendigaid Amen!
Troi daear yn nefoedd wnaeth sain yr Amen

Sych iawn fu'r Cwrdd Gweddi a'r Seiat
gadd sen
Ar ôl iddynt golli gwyh sain yr Amen!
Ond daeth y 'pwerau' a'r galon a dōdd —
Mae Seion yn llawen a'r nef wrth ei bodd.
Rasul Amen! Hyfrydol Amen!
Achubir eneidiau gan sain yr Amen.

Fe dawodd telynau angylion y nef
I wrandaw pechadur yn codi ei lef:
Caiff Iesu goronau fyrdd, fyrdd ar ei ben
Am ddychwel i Seion ei hannwyl am dro.
O! Swynol Amen! Anfarwol Amen!
Mae'r nefoedd yn dotio ar sain yr Amen.

Ti Gristion sy'n arddel Tywysog y Nen,
O! cofia ddal ati i floeddio Amen!
Dy nerthol Amen yrr y diafol ar ffo
A disgyn wna engyl i'th breswyl am dro.
Wefreiddiol Amen! O! gynnes Amen!
Fe hoffwn gael marw yn swm yr Amen.

Glan Rhyddallt, 1905.

Ar gais amryw o ddarllenwyr
dyma roi stori 'Y Ddau Geffyl'
i chwi. Teitl y stori ydyw hyn: 'Ni
cheir ceirch heb aredig'.

Rhyw ddeg oed oeddwn i pan
ddarllenais y stori yn 'Cymru'r
Plant'. Y mae'r stori wedi bod fel
nôd yn fy meddwl byth, sef nôd
i ymgyrraedd ato fel pe tae!

Credaf fod y plant yn yr ysgol
hefyd wedi deall ystyr y teitl a
bydd y wers yn glynu yn eu
meddyliau hwythau gobeithio ar
hyd eu hoës.

Dyma grynoded byr o'r stori:

Sambo oedd enw'r hen geffyl a
Ned oedd enw'r ceffyl ifanc.

Daeth diwrnod i'r ffermwr
fynd â Ned i'r cae i weithio am
y tro cyntaf. Aredig oedd y
gwaith oedd gan y ffermwr.
Cychwynodd y ddau geffyl gyda'i
gilydd — i fyny ac i lawr y cae,
a'r ffermwr yn gafael yn dynn yn
yr aradr.

Toc dyma Ned yn dweud wrth
Sambo: 'Dyma waith gwirion,
cerdded i fyny ac i lawr y cae yn
y mwd a'r baw. Pam na fuasai
mistar wedi rhoi gwaith glan i mi,
rhywbeth fel mynd a meistres i'r
dref yn y car, neu mynd rownd
y pentref i werthu llefrith. Tydw
i ddim yn lecio'r aredig yma a mi
rydw i am stopio.'

Meddai Sambo: 'Paid a bod
yn wirion, yr wyt yn siŵr o gael
chwip, mae raid i ni ufuddhau.'

Felly fu! Bu rhaid aredig y
caeau. Yna aeth y ffermwr i hau
ceirch a phlannu pob math o
bethau ar gyfer bwydydd at y
gaeaf.

Byddai'r ffermwr yn mynd yn
aml i edrych oedd y ceirch yn
tyfu. Wel, mi dyfodd y pethau i
gyd ac yr oedd gan y ffermwr
lond yr ysgubor o geirch a thatws
a phob peth.

Mi ddaeth y gaeaf a mi ddaeth
noson Nadolig. Yr oedd y ddau
geffyl yn y stabal. Yr oedd eira yn
gorchuddio'r wlad, a'r oerni yn
ofnadwy, ac hefyd yr oedd y
gwynt yn chwythu. Noson ofn-
adwy yng nghanol y gaeaf oedd
hi a'r ddau geffyl bron a rhynnu
yn y stabal.

Toc dyma ddrws y stabal yn
agor a'r ffermwr yn dwad i mewn
gyda dwy lond pwced o geirch ac
medda fo: 'Mae hi yn noson
fawr, hogia bach. Yr ydw innau
wedi dwad a digon o fwyd i chi
gan ei bod yn noson Nadolig. Mi

gewch bwcedaid dda o geirch,
fasa waeth i mi beidio dwad a
phwdin Dolig neu fins peis.
Mae'r ceirch eleni yn well na
gwelais geirch erioed. A dyma
ddigon o wellt sych i chwi gael
gwely cynnes i gysgu'.

Dechreuodd y ddau geffyl
fwyta. 'Mae'r ceirch yma yn dda'
meddai Ned. 'Mae o'n anrheg
Nadolig ardderchog'.

Wedi gorffen y swper i gyd,
dyma Sambo yn dweud wrth
Ned: 'Wnei di gofio beth ydw i
am ddweud wrtha ti rwan a gof-
ala na wnei di byth eto gwyno am
fod rhaid aredig yn y mwd a'r
baw. Dyma ydw i isho i ti gofio:
'Ni cheir ceirch heb aredig'.

Rhaid i baw ddysgu gweithio
yn galed os ydych am lwyddo yn
y byd.

Barddoniaeth Fy Nhad

Dyn o hyd a dynn ei het
Benyw ni thynnn ei bonet.

Hogyn drwg yn y dre
Dim ond deudroed — mynd adre.

Edliw wna llawr y gadlas
Gyfle mwyn wanwyn i was.

O lwyn hyd lwyn wyla dloes
Alarnad dawel hwyrmos.

Llwm a phrin yw'r gegin gau
Yn y parlwr mae'r perlau.

Pavilion Happy Valley
Yn llaw mam yw'r lle i mi.

Bwrw glaw y mae'n bur glên
Ebrwydd y daw o'r wybren.

Glan Rhyddallt

DRAENOG



Y Nashionyl Cyricwlwm gafodd y
bai. Ma' hwnnw'n ca'i bai am bob
dim gan ditchiars y dyddia' yma.



Lle ma' titchiars i fod? Yn 'rysgol
yn dysgu'ch plant bach chi a fi.

Lle roedd titchiar o Lanrug
wsnos dwythfa? Yn 'rysgol yn
dysgu plant bach? Nacil!

Yn coleg yn dysgu sut i fod yn
ditchiar Nashionyl Cyricwlwm?
Nacil!

Yn Safeway yn g'neud siopio.
Prynu cyri i'r Cyricwlwm, ella?

FFENESTRI UPVC DRYSAU
MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

YR YSGOL SUL UNEDIG: Crewyd hanes ar brynawn Sul, Medi 9, pan ddaeth degau lawer ynghyd i adeiladau Ebeneser i gyd-addoli mewn Ysgol Sul Unedig am y tro cyntaf erioed, a hyfrydwch oedd gweld nifer lawer wedi troi allan.

Roedd saith dosbarth llawn, gan gynnwys un niferus o oedolion, wedi'u lleoli yma ac acw o gwmpas yr adeiladau, a'r teimlad cyffredinol oedd fod cam cyntaf yr arbrawf wedi bod yn un llwyddiannus iawn.

Edrychir ymlaen yn arw iawn at y dyfodol a gwahoddir yn gynnes iawn unrhyw un o unrhyw enwad i droi i mewn atom i Ebeneser am 2 o'r gloch ar brynawn Sul i ymuno yn y gweithgaredd byrlymus. Os oes nifer dda iawn yno, mae lle i fwy bob amser a pheidiwch a bod yr un sy'n cael ei adael ar ôl. **MERCHED Y WAWR:** Treuliwyd noson gyntaf y tymor yng nghwmni Annette Bryn Parri. Soniodd Annette am ei gwaith fel cyfeillyddes ar raglenni teledu ac ar recordiau.

Mwynhawyd ei sgwrs ddiddorol yn fawr a diolchwyd iddi gan Mrs Buddug Jones.

Bydd cyfarfod Hydref 15 yng Ngholeg Glynllifon pryd y ceir arddangosfa goginio gan Mrs Antoinette Hughes.

SEFDYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Medi 3, croesawodd y llywydd yr aelodau yn ôl ar ôl gwyliau'r haf.

Trwy garedigrwydd Mr Henry Roberts a Mr Alun Wyn Evans, cafwyd hynt a helynt Mr Bob Williams (Cae Dicwm gynt) a anfonodd ar dâp o Seland Newydd i Henry ei ffrind ysgol. Roedd ei atgofion o Ddeiniolen yn fyw iawn, hefyd ei hanes yn teithio'r byd.

Hanna o deulu Pengolwg. Mae'r teulu iddo yn dal i fyw yn yr hen gartref.

Cafwyd bwrdd 'Moes a Phryn' dan ofal Miss Jean Moeller a gwnaed elw teilwng at goffrau'r gangen. Miss Jean Moeller a Mrs H. J. Thomas oedd gwesteion y te.

Enillwyd y wobwr lwcus gan Mrs Beti Wyn Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 1. Y gŵr gwadd fydd Mr Leslie Larsen, Penisarwaun.

Nos Fawrth yr 11ef o Fedi yn

festri Disgwylyfa, cawsom achos i ddathlu 75 pen blwydd y Mudiad yn Genedlaethol.

Gofynnwyd i bob cangen wneud gwledd ar y noson yma i ddiolch am barhad, a'r gwaith mae'r mudiad wedi'i gyflawni, ac fel y mae wedi tyfu, a newid ffurf fel bo galw yn y Gymdeithas.

Cawsom nwyddau gan berchnogion 'Tetley's' fel te, siwgr, llefrith a lliain yn rhodd. Hwytiau yn eu tro yn gofyn am rodd genym ninnau at achos da. Felly, penderfynwyd rhoddi swm o arian.

Diolchodd Mrs Eirlys Williams i bawb a wnaeth ymuno yn y dathliad a gofyn i'r trysorydd Mrs Marian Williams anfon y rhodd. **YR YSGOL FEITHRIN:** Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor yr Ysgol Feithrin nos Lun, 10 Medi, gyda Mr gwyn Parri yn y gadair. Apwyntiwyd Mrs Valmai Williams, Tai'r Faenol, yn athrawes yr Ysgol Feithrin, gyda Mrs Siân Roberts yn ei chynorthwyo.

Cynhelir y cyfarfod blyneddol nos Fercher, 3 Hydref am 7 o'r gloch. Apelir am gefnogaeth i'r cyfarfod, yn enwedig gan rieni.

O 29 Hydref bwriedir agor yn y p'nawniau yn ogystal â'r boreau. Dylai rhieni roi enwau'r plant sydd eisiau dechrau yn yr hydref i Mrs Valmai Williams.

Cynhelir noson Tân Gwylt ar fuarth yr ysgol, nos Lun, 5 Tachwedd.

LLONGYFARCHIADAU: Mae'n bleser gennym longyfarch Dewi Wyn Lewis, gynt o Lys Myfyr, Deiniolen, mab i'r Parch a Mrs Trefor Lewis, Hen Golwyn, ar ennill gradd B.Sc. Graddiodd Dewi gydag anrhydedd yn y Dosbarth 1af mewn Cemeg Cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Essex.

Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Morswyn, Caergybi, Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ac Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Hyfryd yw gweld Cymry ifanc yn cael llwyddiant mewn meysydd mor gystadleuol. Dymunwn bob llwyddiant i Dewi eto.

DIOLCH: Dymuna Mrs May Jones, Ael-y-Bryn, Cae Cnyciog, Llanfairpwll (Clwt y Bont gynt), Meirion ac Alwena ddiolch yn ddiffuant am bob gair o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar

o golli priod, tad a thaid annwyl iawn sef Mr Jackie Jones.

Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at 'Ward Alaw', Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Donald, 2 Tai Gweledfa, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, cymdogion ac ardalwyr Deiniolen a'r cylch am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd trwy ganlyniad i'w ddamwain yn ddiweddar. Diolch am yr holl gardiau i ddymuno gwellhad buan iddo, y galwadau ffôn a'r ymweliadau yn yr ysbyty a ar ôl dod adref.

DIOLCH: Dymuna Alwyn a Rhian (2 Tai Gweledfa gynt) ddiolch o galon am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. **DIOLCH:** Dymuna Mrs Sallie Lewis ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau i gyd am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig.

Diolch o galon i bawb.

TROI I'R DDE YNTE I'R CHWITH?

Mae pawb yn adnabod Gwynfor Lleinia A cytuna pawb ei fod yn hen hogyn clenia

Parod ei wên a'i gymwynas Biti bod o'n sbio gormod o'i gwmpas A siarad, yn lle edrach ar ôl ei fusnas.

Glywsoch chi ei hanes o, rhyw bawn Gwenar

Yn dwad o Bangor chwarter i bedwar A troi am Ysbyty Gwynedd yn ôl ei arfer Ac wrth ddwad oddi yno fe ymddengys Mi gollodd y ffordd, wrth yr ynys

Yn lle troi i'r chwith am y ffordd fawr Mi droiodd i'r dde yn ôl am Coed Mawr Onibai i'r merched waeddi yn un côr Mi fuasa Gwynfor druan 'di cyrraedd Bangor

Gofala Gwynfor na fyddi eto yn y fath helbul

Ne' gora po gynta i ti fynd yn ôl at Crossfull

H.J.

GŴYL FLODAU EGLWYS LLANDINORWIG Awst 3-6, 1990

Dechrau Awst a'r haul yn ei anterth llosgedig Cynhaliwyd Gŵyl Flodau Eglwys Crist Llandinorwig Ar y thema 'Dywediadau ein Harglwydd Iesu' Dyma destun teilwng ac addas i ni oll ei ail ddysgu.

Priodol yw llongyfarch Undeb y Mamau Am y dewis a gosodiad y blodau A chael dathlu canfed blwyddyn eu hundeb Colofnau'r eglwysi a'r capeli yw'r chwiorydd a'u ffyddlondeb.

Prin yw'r offeiriaid ac ychydig sy'n mynychu Ond gwerthfawr yw eich sêl a'r ymdrech serch hynny Na ddigalonwch fel rhai heb wreiddyn Y mae pregeth mewn petalau blodyn.

Bydded i'r Wyl yn ei holl ogoniant Ennyn ynom sêl a haeddiannol foliant I Grëwr y tanbaid haul, gwychter plu'r aderyn Am sawr y lliwiau'r blodau a'u gwyrthiol gynllun.

Diolch am y croeso, y sgon a'r baned Poethder yr haul yn codi syched Difyr fu'r siarad o dan y clochdy A hyfryd cael cwmni cyn deulu'r Ficerdy.

Hugh T. Jones, 6 Vaynol Terrace, Deiniolen

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau
agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

CHWILOTA

RHAI O HEN GERDDORION Y FRO



Mae'n ddiddorol cymaint o gysylltiadau cerddorol sydd i'w canfod o fewn rhai teuluoedd — yn frodyr a chwiorydd; ac yn genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth. Bu gennyg ddiddordeb yn hanes cerddoriaeth o fewn y fro, yn enwedig cerddoriaeth offerynnol, a bum yn chwiloa am hanes unigolion a theuluoedd oedd yn ymhel â cherddoriaeth ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ganrif ddiwethaf. Un o'r teuluoedd rheini oedd teulu Tŷ Mawr, Llanddeiniolen a theulu Lôn Glai, Pontrug yn ddiweddarach.

Ychydig o wybodaeth sydd gennyf ar hyn o bryd am y teulu hwn, ond gobeithio y gall rhai o'r darllenwyr gynorthwyo.

Tua chwarter olaf y ddeunawfed ganrif y penteulu yn Nhŷ Mawr, Llanddeiniolen oedd gŵr o'r enw Evan Jones. Roedd iddo dri o feibion: John Evans, Thomas Evans a William Evans. Mae posibilrwydd fod mwy o blant yn y teulu hefyd, ac efallai fod yno chwaer o'r enw Mary Evans. Mae'n amlwg fod y teulu yn eithaf cerddorol a'u bod yn aelodau o gôr eglwys Llanddeiniolen.

Yn y cyfnod hwnnw, gŵr o'r enw William Roberts o'r Rhydau oedd yn dysgu ac yn arwain y côr. Mae'n ymddangos fod William Roberts yn tynnu 'mlaen o ran oedran, a'i fod yn cael peth trafferth i gyrraedd rhai nodau yn ystod y gwasanaeth ar un o'r Suliau. Yn ôl traddodiad, daeth John Evans, mab hynaf Tŷ Mawr i'w gynorthwyo, a chanwyd y dôn arbennig honno ganddo mor arbennig o dda fel i William Roberts drosglwyddo'r aawennau iddo o'r Sul nesaf ymlaen.

Mae lle i gredu hefyd fod John Evans yn medru cyfansoddi, a bod rhai o'i donau wedi eu cofnodi ar ddyddiaduron ei frodyr. Yn anffodus, bu John Evans farw yn ŵr ifanc, a hynny cyn cyrraedd ei ddeg ar hugain oed.

Yn ystod misoedd yr haf, 1807, tua hanner blwyddyn wedi marw John, symudodd y teulu i fyw i ffermdy'r Lôn Glai yn ardal

Pontrug. Priododd Thomas Evans, yr ail fab, gyda Mary Owens (merch Bryn Llan, Llanrug?) yn 1812, a bu iddynt o leiaf bedwar o blant. Pan fu farw Thomas yn 1829, cofnodwyd yng Nghofrestr Claddedigaethau Llanrug ei fod yn 'one of the psalm singers' — a hynny yn llawysgrif y Parch Peter Bailey Williams, Rheithor y Plwyf. Dyma brawf eto o gysylltiad cerddorol y teulu.

Ni chredaf i'r trydydd brawd briodi, ond bu'n byw yn y Lôn Glai gydol gweddill ei oes; yn cartrefu gyda'i chwaer yng nghyfraith wedi marwolaeth ei frawd. Bu fyw i gyrraedd yr oedran teg o 85 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd yn Llanrug.

Priododd eu chwaer(?), Mary, gyda Richard Owen, mab Owen Prichard. Bu'r tad a'r mab yn glochydion plwyf Llanrug am gyfnod o 83 mlynedd.

Beth ddaeth o ddisgynyddion y teulu hwn? A oes rhai ohonynt yn byw yn yr ardal heddiw, ac a ydynt yn gerddorol fel eu cyn-deidiau? Dywedid fod y tri brawd — John, Thomas a William — 'yn ddatganwyr gwych yn eu dydd a'u tymor'. Oes rhywrai o'u disgynyddion all gadarnahu hynny?

Cysylltwch â Dafydd White-side Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Caernarfon 3515).

PLYGU'R ECO
Rhifyn TACHWEDD
yn y
WAUNFAWR

PALMANTU A GARDDIO



Douglas Roberts (chwith), Rheolwr Cynllun Hyfforddi Cyflogaeth, gyda rhai o'i weithwyr yn Ysgol Llanrug. Mae nhw wedi gosod slabiau concrid wrth y brif fynedfa ac wedi ail-fodelu'r fynedfa gefn fel rhan o gynllun gan y Cyngor Sir i wella amgylchedd yr ysgol. Yr ysgol ei hunan sy'n talu am welliannau i'r gerddi, a hynny gyda chymorth cymorthdal gan Telecom Prydeinig. Os oes gan unrhyw riant neu bentrefwyr lwyni bychan nad yw eu hangen, buasai'r ysgol yn falch iawn o'u derbyn.

PRYSURDEB YN YR AWYR



Mae trigolion yr ardal sy'n amgylchynu Gwesty Seiont Manor wedi hen arfer bellach â'r hofrenyddion sy'n glanio ac esgyn oddi yno ar rai cyfnodau. Ond ddydd Sadwrn, 22ain Medi roedd prysurdeb mawr iawn yno. Gwelwyd o leiaf hanner dwsin o hofrenyddion yn glanio yno, ac yn ôl un adroddiad, roedd cynifer â phymtheg hofrenydd o amgylch y safle ar un cyfnod.

Teg gofyn ai dyma'r math o brysurdeb a welir yma pe caniateid hawl cynllunio am Gwrs Golff ar y tir?

DERBYN YN GYFLAWN AELODAU



Fore Sul 23ain Medi yng Nghapel Pontrhythallt, Llanrug, gyda'r gweinidog, Y Parch John Morris yn gwasanaethu, derbyniwyd saith o bobl ifanc y capel yn aelodau llawn.

O'r chwith i'r dde yn y llun gwelir: Iwan Llŷr, Judith Jones, Dyfed Thomas, Delyth Jones, Y Parch J. Morris, Gwion ap Llwyd, Martin Davies a Catrin Thomas.

BEIC GENETH 'Raleigh Blue Bird'

addas i un o 6 i 9 oed.
Lliw gwyn. Cyflwr ardderchog.
£50 neu gynnis agos.
Ffôn: 870022

KARATE

Ysgol Gynradd Llanrug

Bob nos Fawrth bydd cyfle i ddysgu Karate yn Neuadd yr Ysgol Gynradd. Plant dan 14 oed am 6.30. Oedolion am 7.45. Am fwy o wybodaeth, galwch draw ar y nos Fawrth nesaf.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

DAN FLEW EIN LLYGAID

 hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

1. CYSTUDD A CHYSUR

'Dala Poethion' meddan ni ar dafod leferydd ac os ydych yn siarad fel llyfr, y 'ddanhadlen' sydd gennych mewn golwg. Am wn i, mae 'dala poethion' yn gwneud ein tro ni. Wyddoch chi fod 'na ddau fath, sef y *ddanhadlen deiaf*, a'r *ddanhadlen boeth*, a digon yw ychwanegu'n frysiog mai'r un yw'r cystudd drwodd a thro, os y digwyddwch gael eich pigo ganddynt! Peri i chi wingo a siarad dan eich gwynt wna'r pigiaidau. Mae'r llosg ar groen yn brofiad annymunol dros ben. Hen gnawes ynte; hen gythraul di-deimlad o blanhigyn — mi wyddoch o'r gorau y teimlad wedi i chi gerdded yn droednoeth drwy'r glaswellt a hynny heb sylweddoli fod dala poethion yn llechu dan y tusw gwair. Sôn am wingo. Sôn am ei dweud hi hyd adref ac hyd yn oed fygwth hyn ac arall.

Ond ble y bo cystudd mae hefyd gysur. Ran fynychaf, fe'i ceir dan flew y llyg'id, yn union gerllaw y drwg, a'r planhigyn sydd yn cynnig balm ar glwyf yw'r ddeilen dafol fondigrybyll. Bydd hon fel arfer yn cyd-rannu yr un cilcyn o ddau'r ddeilen boeth arswydus o boenus.

Dim ond i chi rwbio y ddeilen dafol ar y fan a losgwth ar y croen, — a dyna'r wyrth — y boen a'r llosgi yn lleihau, a hynny oherwydd bod sylwedd alcalinaidd yn ei deilen.


Gresyn ein bod yn collfarnu'r ddeilen boeth. Rhaid peidio â rhuthro'n ormodol i'r canlyniad mai hen gnawes go iawn ydy' hi. Na'n wir y mae i'r planhigyn ei rinweddau. Onid yw nifer go dda o bryfetach yn mwynhau lletya ar ei dail ac yn cael llond eu gwala ohoni?

Dyna'r llyffant gwair sydd yn dodwy ei wyau melyn bychain ac yn eu gorchuddio â phoer y gog fel y'i hadnabyddir — ie'r ddeilen boeth yw ei fan ffafriol i ddodwy.

A beth am y gloynnod byw? Dyna fu hanes y Fantell Goch, Y Peunog, Gloyn Bach y Ddanhadlen a'r Adain Garpiog.

Chwilio am ddeilen boeth bob gfael, a'u rhai bychain, y sianod blewog yn byw'n fras ar y deiliach. Yr un yw hanes Gwybedyn y Bustl yntau; at y ddeilen boeth yr â am ei nodded.

Ac y mae'r dystiolaeth hwnt ac yma yn llyfrau deiliach a llysiau rhinweddol yn tystio nad chwyn



di-ddefnydd mo'r ddeilen boeth.

'Sgyrri': tair lwyaid o sug danadl poethion bob bore.

Dannodd: rhoddwch ddanadl poethion wedi eu berwi neu eu hysgo ar eich cern.

Tynnu drain, picellau ac esgyrn o gnawd: Defnyddiwyd wraidd dala poethion a halen, wedi'u pwyo ynghyd.

Ys gwn i beth yw'r dystiolaeth sy' gennych chi i'w gynnig? A ydych chi'n hongian dala poethion yn y gegin er mwyn gyrru pryfed ar ffo neu'n well byth yn gosod sbrigyn o'r planhigyn dan din iâr sydd ar streic?

Beth am daro gair buan atom?

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

LLONGYFARCHIADAU i Yvonne Griffiths, Delfryn, ar ei dywedd iad â Eryl o Flaenau Ffestiniog.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr nos Lun, Medi 17. Penderfynwyd cwyno i Gyngor Arfon fod ymgymerydd wedi defnyddio'r tir ger y sgwâr fel gweithle, a gofyn i'r Cyngor godi arwydd i geisio atal tipio ac ysbwriel. Ar ôl trafod problemau

ynghlŷn â'r gwasanaeth bws, penderfynodd y Cyngor ysgrifennu at y Comisiynwyr Trafnidiaeth. Disgwylir i Gyngor Gwynedd hysbysebu cyn hir ei syniadau ar gyfer y tro o dai Glangwna i'r briffordd.

PLAID CYMRU: Dylid talu'r tâl aelodaeth ar gyfer 1990/91 i Clive James, Hafan, mor fuan ag sydd bosib.

DIOLCH: Dymuna Yvonne Griffiths, Delfryn, ddiolch i bawb am yr anrhegion, arian, cardiau a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd yn ddiweddar ar achlysur ei dywedd iad ac hefyd o ganlyniad i'w gradd ym Mhrifysgol Bangor. Gwerthfawrogwyd yn fawr.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

PROFEDIGAETH: Yn sydyn ar Awst 29ain, bu farw Mr Michael Williams, Cartref. Cydymdeimlwn â'i fodryb Miss Nance Williams a'r teulu oll yn eu colled.

GWELLA: Da deall fod Kelly Roberts, Awelfryn, yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. GENI: Ar Awst 27, ganwyd mab i Mr a Mrs Gareth Lloyd Jones, Oaklea, Wyr cyntaf i Mr a Mrs O. E. Wynne, Llety Llwyd, a gor-wyr cyntaf i Mr a Mrs R. Wynne, Llanfairfechan, (Gelliodynt).

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Janice Lamerick Ty'n Llwyn ar ei llwyddiant yn ei haroliadau Sefydliad Dinas a Gildiau Llundain. DIOLCH i Annwen Parry, Ael y Bryn am gytuno i gymeryd gofal o ohebiaeth newyddion Tan-y-Coed yn lle ei chwaer, Bethan. Diolch i Bethan am ei chyfraniad a phob dymuniad da i Annwen. Cofiwch ei chefnogi a rhoi gwybod iddi am unrhyw newyddion o'r cylch — GOL.

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon

LLONGYFARCHIADAU i Dafydd a Heddwen ar achlysur eu priodas y mis diwethaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Karen Ann Price ac Alan Pritchard ar basio eu arholiadau yn yr ysgol. Da iawn chi.

GWELLHAD BUAN i Alan sydd yn Ysbyty Harefield ar ôl derbyn calon newydd; hefyd i Mrs Jean Ellis, gynt o'r Nant, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am rai wythnosau; ac i Mrs Eluned Owen, Dolwen, sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Da gennym ddeall hefyd bod Mrs Jennie Williams, Pennant, yn gwella ar ôl damwain i'w braich. LLONGYFARCHIADAU i David Ellis ar basio arholiadau yng Ngholeg Penraig.

TIMAU'R FRO AR Y TALWRN

Ceiliogod Y Waunfawr a Llanrug fydd yn cynrychioli'r fro ar 'Dalwrn y Beirdd' eleni eto. Mae'r rowndiau cyntaf eisoes wedi dechrau, ac ar Hydref 16eg, bydd tîm Waunfawr yn talwrna yn Llanwnda yn erbyn timau Caernarfon a Glannau Llyfni.

Bythefnos yn ddiweddarach, a bydd taith i Fotwnnog yn wynebu Llanrug, i herio Beirdd y Byd a Llŷn.

Wythnos cyn y Nadolig, a bydd Llanrug yn drringo i ganolfan Dinorwig i ymraffael â thîm Abergele, ond bydd yn rhaid i'r Waunfawr aros hyd Chwefror 12fed i gystadlu'r eildro — y tro hwn yn Nhal-sarnau yn erbyn tîm Llŷn.

Tybed a fydd y ddau dîm yn ennill eu lle yn y rowndiau terfynol a fydd yn cychwyn wedi'r Pasg?

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552


J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898 (dydd)
Caernarfon 76285 (nos)

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Llithro o un tymor i'r llall a wnawn yr adeg hon o'r flwyddyn — ffarielio fel petai â diwedd haf a cherdded ymlaen i dymor yr hydref. Ni allwn honni bod yr hin wedi rhyw oeri rhyw lawer eto, ond fe ddichon y teimlwn yr hin yn ysgafnu, cawn gawodydd o law, a phan geir hwnnw, fe'i sugnir i mewn i'r pridd a pharatoi y cyfan ar gyfer tymor y tyfiant y disgwylwn ei gael yn ystod gwanwyn 1991, gyda'r cynnyrch yn amlygu ei hun ar ddiwedd y tymor. Pryd hau a medi a ddeuant yn eu tro ac yna'r casglu i ysguboriau.

OEDFAON UNDEBOL: Ers rhai blynyddoedd bellach mae capel Dinorwig (M.C.) a Sardis (B) yn cynnal Suliau Mis Awst ar y cyd, ac fel y digwyddodd eleni, y ddwy gynulleidfa yn cyfarfod yn Dinorwig ar Sul cyntaf a'r olaf o'r mis, a Sardis yn fan cyfarfod ar ddau Sul canol y mis; ac mae'r trefniant yn gweithio allan yn gwbl foddhaol er lles y ddau gapel.

Wedi i'r mis ddirwyn i ben, roeddem ni o Sardis yn cefnogi ein chwaer-eglwys Libanus, Clwt y Bont, yn eu cyrddau pregethu blynyddol. Y cennad a wahoddwyd i wasanaethu eleni oedd y Parch Irfon C. Roberts, Brynman — yntau'n enedigol o Gaergybi ac yn fab i weinidog pur amlwg yn ein henwad. O gofio bod capeli Dein-iolen yn cau ar y Sul arbennig hwn yn ffafr Libanus, tenau ar y cyfan oedd y cynulladau — yr ychydig ffyddloniaid yn unig oedd yn bresennol.

Roedd gwedd mwy llewyrchus ar yr oedfa hwyrol gan bod cyfeillion o Benue, Bangor a Bethel, Caerllwyng Rudd yn bresennol. Tybed a oedd y cynulladau prin yn dangos difrawder a diffyg diddordeb ym mhethau crefydd?

LLWYBRAU CYHOEDDUS: Fe euthum innau i lawr yr 'Inclêns' i fyned i'r oedfa bnawn a'r hyn oedd yn amlwg oedd bod ein cynghorau yn anwybyddu cadw'r llwybrau cyhoeddus hyn mewn cyflwr priodol. Y priffyrdd yn unig a gaiff sylw bellach oherwydd prinder cyllid. Os yw hyn yn wir led-led ein gwlad, mae'n rhaid cydnabod bod y wlad mewn cyflwr difrifol a bron anobeithiol. Faint tybed o'n cyngorwyr sy'n cerdded yr hen lwybrau i weld drostynt eu hunain ym mha gyflwr y maent. Fe welsom gyfnod pan oedd ein cynghorwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ac yn ymfalchïo yn y wedd hon ar weithredu.

GŴYL BREGETHU: Ddiwedd y mis hwn fe fyddwn ni yn Sardis yn ymdrechu i fynd i o leiaf un oedfa ym Methel, Caerllwyng Rudd, pan gynhelir eu gŵyl bregethu hwythau. Dyma un ffordd i ymgynabod â'n brodyr a'n chwiorydd sy'n cadw'r faner i chwifio yng nghapeli eraill y gylchdaith. Benthyciwn yr ymadrodd hwn oddi wrth ein cyfeillion yng nghyfundeb y Wesleaid. Fe ddaeth ein profiadau â ni yn nes at ein gilydd bellach, ac rydym yn dysgu i gydweithio er lles y deyrnas nad ydyw o'r byd hwn, ond sydd eto'n lefeinio'r byd hwn.

Y DWYRAIN CANOL: Sw'n anghydfod sy'n y Dwyrain Canol, ond fe obeithiwn y gellir datrys y problemau astrus tra'n cofio mai crud crefyddau y byd modern yw'r rhan hon o'r byd wedi'r cwbl.

Ymgynraedd yr ydym at hedd-wch a thangnefedd ac fe hoffem deimlo:

'Mai brodyr i'w gilydd Fo dynion pob oes'.

EGLWYS ST. MAIR: Eleni cynhelir yr Ŵyl Ddiolchgarwch ar ddydd Sul, Hydref 14. Bydd Gwasanaeth o'r Cymun Teuluol am 10.00 y bore ac yna am 3.45 byddwn yn croesawu y Parch John Gillibrand, Curad Llanbeblig, Caernarfon a Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Cwm Rhymni atom. Fel arfer bydd yr Eglwys ar agor fore Sadwrn, Hydref 13eg o 10.00 ymlaen ar gyfer derbyn ffrwythau a blodau ar gyfer addurno'r eglwys. Mae croeso i aelodau Capeli lleol ymuno â ni yn yr Ŵyl.

PWYLLGOR Y GANOLFAN: Cynhelir y cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Ganolfan ar nos Fawrth, Hydref 9 am 7.00. Hwn fydd y cyfarfod cyntaf ers ychydig fisoedd ac oherwydd hynny gwneir apêl daer ar i bob aelod o'r pwyllgor wneud ymdrech i fod yn bresennol.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

SIMNEIAU GWael? CRACIAU MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS

Cysylltwch â David Wood

'INSULAF LUE'

Yr Arbenigwyr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

CLWB CANT YSGOL DOLBADARN Enillwyr Clwb Cant Mis Medi yw: £25: Mrs Helen Sharp, Maes Padarn, Llanberis (146); £15: Mrs Eirian Owen, Eiryn, 7 Beddwenan, Llandwrog (134); £10: Mrs A. Roberts, 22 Snowdon St. Llanberis.

CLWB ERYRI: Bydd tymor y gaeaf yn cychwyn nos Wener, Hydref 5, yng Ngwesty Gwynedd, pan y ceir sgwrs gan Mr John H. Hughes yn absenoldeb Mr Arfon Jones, Llywydd y Clwb. Llywydd y noson fydd Mr Selyf Hughes. Erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs J. MacKay, 4 Ceunant Street, ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am y cardiau pan oedd yn Ysbyty Gwynedd.

DYMUNA Megan Hughes, 9 Rhes y Faenol, Llanberis, ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Eifion a Gwyneth, Tŷ Eryri, Llanberis, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas arian.

YN YR YSBYTY: Dymunwn wellhad buan i William Christmas Jones, 3 Blaen y Ddôl, sydd yn yr ysbyty ers rhai wythnosau erbyn hyn.

PENBLWYDD HAPUS yn 18 oed i Llioni, 1 Stryd Tomos ar y 4ydd o Hydref. Llongyfarchiadau hefyd i Einir Thomas, 9 Stryd Ffynnon a ddathlodd ei phenblwydd hithau yn 18 oed ar Fedi 6ed.

Er Côf am Mrs Delia Parry, Plas Tirion: Ym marwolaeth Mrs Delia Parry, collwyd darn helaeth o'r bywyd cymdeithasol yma yn Llanberis. Gwraig oedd Mrs Parry a brofodd fywyd yn ei gyfanrwydd, y melys a'r chwerw, hindda a stormydd, gwynfyd ac adfyd.

Bu i'r profiadau hyn gaboli ei chymeriad a'i phersonoliaeth, gan greu un gadarn a phendant ei daliadau, sicr o'i ffydd yn Nuw, a hynaws, annwyl a chariadus tuag at bawb. Oedd, roedd Anti Delia yn wraig garedig a hoffus.

Yn dilyn ei phriodas ag Owen Parry, bendithiwyd yr aelwyd â nythaid o blant, pedair geneth a dau fachgen. Yn ystod tlodi y tridegau bu hi a'i phriod yn llafurio'n galed i fagu teulu mawr, a hynny ar aelwyd hapus a diddan.

Ond torrwyd ar hapusrwydd yr aelwyd ym marwolaeth Owen Parry a bu'n rhaid i Delia wynebu un o stormydd erchyllaf ei bywyd, sef colli priod a thad cu, yn ogystal a wynebu y gyfrifoldeb fel gwraig weddw ifanc i fagu ei phlant.

Ymlafuriodd hi yn ddi-flino â'i

chyfrifoldeb a llwyddodd drwy lafur caled mewn cyfnod o dlodi i sicrhau addysg gyflawn a magwr-aeth o'r iawn ryw i bob un ohonynt.

Yn wir, clod iddi a thystiolaeth o'i dyfalbarhad a'i dygnwch, yw i'r holl blant dderbyn addysg golegol, a mwy na hynny, y ffaith eu bod heddiw yn ddinasyddion gwerthfawr mewn cymdeithas. Tystiolaeth yw hyn o gymeriad cadarn un a fu'n fam a thad ar yr aelwyd.

'Wedi diwrnod caled o waith' ymgartrefodd Mrs Parry gyda'i merch Moreen ac Eddie ym Mhlas Tirion. Yma eto, gwelwyd hi fel brenhines urddasol ei theulu a'i phlant o'i hamgylch yn gyson.

Yn hardd y tyfodd i oedran teg, gan ddal i gadw nodweddion hyfryd ei chymeriad.

Fel yn ei bywyd, yn dawel yr ymadawodd o'n plith, ac ar dydd yr angladd llanwyd Eglwys St Padarn, lle y bu'n aelod mor ffyddlon, gan ardalwyr Llanberis a'r fro, fel tystiolaeth o edmygedd a pharch i un oedd mor agos i'n calonnau.

Ie, 'O dan fawrhad ei hen fro Fwyn gyfaill fyn ei gofio', — sef y person tlws hwn.

Y mae englyn y Prifardd William Morris i'r fam a gollwyd yn addas mi gredaf, i'r golled ym marwolaeth Mrs Delia Parry, gan grynhoi yr ychydig eiriau hyn o deyrnged iddi.

'Gorau fam a garaf fi — yma'i rhoed
Trwm yw'r ing o'i cholli
O mor anodd fu rhoddi
Yn y llwch, ei harddwch hi'.

John H. Hughes, Tan y Clogwyn

DIOLCH: Dymuna teulu Mrs Delia Parry, Plas Tirion, ddatgan eu gwerthfawrogiad a'u diolch i'r ardal am y parch a ddangoswyd tuag at eu hannwyl fam. Diolch am y blodau, cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd. Diolch arbennig i'r meddyg teulu, staff Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd, Y Parch a Mrs Peter H. Pritchard, y Gwasanaeth Ambiwylans a Mr Myrddin Pritchard.

DIOLCH: Dymuna Mrs Kathleen M. Williams, 6 Glanrafon Bungalows, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna 'Genod y Syrjeri', Llanberis, ddiolch i bawb am eu haelioni a'u cefnogaeth i'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn y ganolfan yn ddiweddar.

Casglwyd dros £1,000, ac fe ddefnyddir yr arian i brynu Peiriant ECG (ar gyfer profi'r galon) i'r Feddygfa yn Llanberis.



YSTORFA MINFFORDD STORES
GAEATHRO
GAERNARFON
YR HEN BOST 1887-1987
AR TYRPEG 1817-1886

Nwyddau Groser
Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiad i Mr a Mrs Arthur Jones, 5 Trem Eilian, ar ddathlu eu priodas arian yn ddiweddar.

Dymuna'r ddau ddiolch yn gynnes i berthnasau a chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar yr achlysur.

CYMDEITHAS CHWIORYDD BRYNREFAIL (M.C.): Cyfarfu'r Gymdeithas nos lau, Medi 6 dan lywyddiaeth Mrs Gillian Morris, Meini Gleision. Arweiniwyd yn un defosiwn gan Mrs Jennie A. Roberts, Glandŵr. Dewisodd ddameg y Samariad Trugarog fel maes ei thrafodaeth gyda chymhwysiad cyfoes.

Croesawodd y llywydd wraig wadd y noson sef Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr. Rhoddodd sgwrs ddiddorol drwy gymorth sleidiau am ei hymwelid diweddar â Lesotho a werthfawrogydd gan yr holl aelodau.

Darparwyd lluniaeth gan Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach; Mrs Verna Jones, Meillionen a Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Hydref 11. Wytynnyd gwahoddiad i'r oll o chwistyrdd yr Ofalaeth i'r cyfarfod hwn pryd y disgwylir Mrs Menna Green, Y Bala, i annerch.

BARBECIW: Cafwyd noson lwyddiannus nos Sadwrn, Medi 8fed pryd y cynhaliwyd Barbeciw yn iard yr Ysgol Fach dan nawdd Côr Meibion Dyffryn Nantlle. Rwy'n siwr ein bod oll fel pentrefwyr yn ddiolchgar i aelodau'r côr am drefnu noson mor hwyliog ac am gael y pleser o wrando ar y côr yn canu yn yr awyr agored. gwnaed elw o dros £200 i gyllid y côr.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos fawrth, Medi 11, cafodd y pentrefwyr gyfle i fwynhau Te Parti i ddathlu tri chwarter canrif ers sefydlu Sefydliad y Merched.

Roedd iard yr hen Ysgol Fach wedi ei haddurno gan ieuencid y pentref a chafodd pawb fwy na digon i'w fwyta wrth y byrddau.

Roedd Raffl arbennig wedi'i threfnu gyda'r elw o £25 yn mynd at achosion da. Wele'r enillwyr: Basged Ffrwythau — Miss Violet Roberts; cacen Siocled — Mrs Gwenllian Edwards; Planhigyn — Mrs Gwyneth Williams; Menig Popty — Mrs Eleanor Williams;

Lliain — Miss Blodwen Owen.

Trefnir Trip Dirgel ar gyfer nos lau, Medi 27ain. Cost cludiant ac ymweliad fydd £3.00 gyda'r lluniaeth yn ychwanegol.

LLONGYFARCH: Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau da i Neil Roberts, 1 Minffordd, ar ei briodas ar Awst 11 â Sandra Jones o'r Waunfawr. Maent yn gwneud eu cartref ym Mhenllyn. Croeso cynnes Sandra i Frynrefail!



PRIODAS: Dydd Sadwrn, Medi 15fed yng Nghapel M.C. Brynrefail, priodwyd Miss Kathy Williams, Marino, â Mr Thomas Glyn Jones o Walchmai.

Gweinyddwyd gan y Parch John Morris gyda Miss L. P. Roberts wrth yr organ. Y morynion oedd Miss Christine Jones (ffrind y briodferch) ynghyd â Ffion Ceri Onions a Kelly Louise Williams (nithoedd y briodferch).

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Bydd y pâr priod yn cartrefu yn Llys Tryfan, Gwalchmai.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL: Nos Sul, Medi 16, cafwyd gwasanaeth arbennig o Fedydd a Swper yr Arglwydd. Gweinyddwyd y Sacramentau gan y Gweinidog, y Parch John Morris.

Bedyddwyd Marian Lloyd Jones, 3 Trem Eilian, ac fe'i derbyniwyd hi ynghyd â Kelvin Houston a Nicola Houston, 2 Trem Eilian yn gyflawn aelodau yn yr Eglwys gan y Gweinidog. Daeth cynulleidfada deg ynghyd i gyfranogi o'r Cymun. Cafwyd gair o groeso a diolch gan lywydd y mis, Mr Elfed Roberts.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Rhai o'r pentrefwyr yn mwynhau parti dathlu 75 mlynedd Sefydliad y Merched.

SUL Y BEIBLAU: Bydd y cyfarfodydd blynyddol arferol yn cael eu cynnal yn Eglwys Crist, Llandinorwig ddydd Sul, Hydref 7fed — oedfa'r plant yn y prynhawn a Chymanfa ganu yn yr hwyr.

SUL DIOLCHGARWCH: Eleni cynhelir cyfarfodydd Gŵyl y

Diolchgarwch yn Eglwys M.C. Brynrefail ddydd Sul, Hydref 21ain.

Bydd cyfarfod y prynhawn dan nawdd Cymdeithas y Chwiorydd ac oedfa'r hwyr dan ofal y Gweinidog a'r ieuencid.

Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon.

CÂN I GYMRU

Mae Teledu'r Tir Glas yn cynnal cystadleuaeth i ddod o hyd i 'Gân i Gymru 1991'. Bydd y gân fuddugol yn cynrychioli Cymru yn yr Wyl Ban Geltaidd yng Ngil-Airne yn Iwerddon ym mis Mai 1991.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i gyfansoddwyr unigol neu i gyfaith gan fwy nag un cyfansoddwr, dim ond i'r gerddoriaeth a'r geiriau fod yn wreiddiol, heb eu cyhoeddi a heb ymddangos ar deledu, radio neu recordiad masnachol.

Oherwydd safon uchel caneuon y gorffennol mae S4C yn awyddus i'r caneuon gael eu clywed fwy nag unwaith ar y teledu, ac felly bydd ychydig o newid ar y drefn y tro yma. Bydd yr wyth cân derfynol yn cael eu dangos mewn cyfres newydd o adloniant ysgafn a ddarlledir pob nos Sadwrn o Ionawr 12fed ymlaen. Clywir un gân o'r wyth bob wythnos gan arwain at yr uchafbwynt ar fawrth 9, pryd y cyhelir y gystadleuaeth ei hun.

Y gobaith eto, yw darganfod cân yn llinach buddugwyr y gorffennol megis Eryr Wen,

Manon Llwyd a Hefin Huws a fu mor llwyddiannus yn Iwerddon yn eu tro. er na fu i Sobin a'r Smaelliaid ennill yng Nghil-Airne eleni, bu'r gân 'Gwlad y Rasta Gwyn' ynghyd â'r perfformiad ar y rhaglen 'cân i Gymru' yn rhannol gyfrifol am boblogrwydd syfrdanol y band.

Unwaith eto bydd cwmni CRS, Y Co-op, yn noddi'r gystadleuaeth drwy gynnig gwobr o £1,000 i'r enillydd ynghyd â chyfraniad tuag at y costau o fynd â'r artistiaid buddugol i'r Iwerddon.

Y dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth yw Tachwedd 10fed. Am fwy o fanylion, a ffurflen gystadlu, cysyllter â: Hefin Elis, Teledu'r Tir Glas, Maesincla, Caernarfon, (Ffôn: 0286 5766).

NOSON GOFFI FLYNYDDOL

Yn y 'Royal' Caernarfon
Nos lau, Hydref 25 am 7.00
Elw at Apêl Ymchwil y Galon
Cangen Caernarfon a'r
Cylch

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871278



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 673075



CURIAD CALON CYMRU

DIWRNOD *Menter*

TACHWEDD

RHEDEG BUSNES
AM DDIWRNOD

FI 'DI'R BOS!



MARTIN EAGLESTONE 30 oed

Byw yn y Felinheli, Gwynedd
Swyddog Cynllunio,
Adran Gynllunio, Cyngor Sir Gwynedd
Hefyd yn Swyddog Undeb



ARWYN ROBERTS 27 oed

Byw yng Ngherrigydrudion, Clwyd
Yn edrych ar y posibilrwydd
o gychwyn busnes



OLWEN RICHARDS 21 oed

Byw yn Hendygywyn ar Dâf, Dyfed.
Nyrs—blwyddyn olaf o'i hyfforddiant
Ysbyty Glan Gwili, Caerfyrddin.

Ar Dachwedd y 1af—Diwrnod Menter, bydd Martin, Olwen ac Arwyn yn cymeryd yr awenau ym musnes Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd.

Chwarel lechi ydy Llechwedd, ac mae tair elfen i'r cwmnïau sydd yno—cynhyrchu llechi tô a deunydd pensaernïol, gwneud crefftiau llechi o bob math, ac yn olaf atyniad twristaidd—ceudwll tanddaearol.

Bydd Martin, Olwen ac Arwyn yn dod at ei gilydd i redeg y cwmni am y dydd. Mi fydd yn dipyn o dro ar fyd i'r tri, ac yn brofiad gwahanol iawn i'w bywydau bob dydd.

Dilynwch eu hynt a'u helynt ar S4C, Nos Fercher, Hydref 31, trwy'r dydd ar Radio Cymru, Ddydd Iau Tachwedd 1af, ac eto gyda'r nos ar S4C.

PWY 'DI'R BOS YN EICH ARDAL CHI?

Ar Dachwedd 1af, Diwrnod Menter, bydd 100 o bobl ifanc ledled Cymru yn cael y cyfle i redeg busnes lleol.


Am fanylion pellach am eich ardal chi: cysylltwch â Menter a Busnes ar (0970) 625561



S4C

Menter a Busnes

CROESAIR HYDREF



Ar Draws

1. Hanfod Hanes
4. Cymdoges Gomorra
7. 'Yn y nen' o bosibl
8. Lliw'r ddafad honno sydd ym mhob teulu
10. Treiglo'r planhigyn Nadoligaidd
13. 'Chdi biau fo'
14. O safon arbennig
15. 'Hogyn' Sir Fôn?
16. Ebychiad o liw Seisnig
18. Rhan gyntaf plu 'Carlo'
20. Gwisg ysgol neu siwt blisman
21. Dyn o 'dre'
22. Ysbaid o 1 ar draws
23. Cymysgedd o lafariaid gwahanol
24. Ffrindiau pennaf pobl, hwyrach
25. Cadarnhaol
26. Rhyfedd iawn
28. Nid porth na dôr i'r tŷ
30. Cynhaef diwedd haf
32. Parhad dynoliaeth
34. 'Croes Bren' oedd un
35. Negyddol
36. ' — a nhw'
38. Nid o'r lle tân anferthol
41. Gwaedd o'r galon
42. Hin y gaeaf

I Lawr

1. 'Iobos' ddyddiau a fu
 2. Bloedd yr un ddu Gymreig
 3. Canol yw chwarel gopr Beddgelert
 5. Ychwanegu 'n' at bâr benywaidd
 6. Mae'r bwyd yn dda
 8. Dŵr yn rhedeg yn annisgwyl
 9. Rhif llai na deg
 11. Dwy ar gar ond un ar garafan, fel arfer
 12. Ni fu'n 'drugarog'
 13. Sant
 15. Nodwedd o 'Stiniog
 17. Enwogrwydd
 19. Peint o fwyn? — Na!
 26. Edrychai ar ôl yr wedd 'stalwm
 27. Ynni meddai rhai
 29. Arwydd o dynnu coes
 30. Nid yma nac acw ond —
 31. Merch hirfain —
 33. Perchnogaeth
 37. Ebychiad deheuol
 39. Unigol ni
 40. O! Roedd honna'n brifo
- Anfonwch eich atebion at Dafydd Whiteside Thomas, Bronnant, Llanrug, erbyn Hydref 23 fan bellaf. Bydd £5 o wob'r i'r cyntaf yn gywir o'r het.

Dyddiader y Mis

HYDREF

1. **Llun:** DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched — gyda Mr Leslie Larsen; LLANRUG: Tombola yn Ystafell y Seindorf, 7.00.
3. **Mercher:** LLANRUG: Merched y Wawr — Ymweliad â Theatr Gwynedd; DEINIOLLEN: Cyfarfod Blynnyddol yr Ysgol Feithrin 7.00; YR ARDAL: Antur Padarn — 'Angorfa', Llanberis 7.00.
5. **GWENER:** YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, 7.30. I annerch — John Hugh Hughes; YR ARDAL: Ysgol Brynrefail — Sioe Ffasiynau, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.
7. **Sul:** LLANRUG: Capel Mawr — Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant; LLANDINORWIG: Gwasanaeth Cymdeithas y Beibla.
9. **Mawrth:** DINORWIG: Pwyllgor y Ganolfan, 7.00.
11. **Iau:** BRYNREFAIL: Cymdeithas y Chwiorydd. Anerchiad gan Mrs Menna Green, Y Bala.
13. **Sadwrn:** LLANRUG: Eisteddfod y Pentref.
14. **Sul:** DINORWIG: Gŵyl Ddiolchgarwch Eglwys St. Mair.
15. **Llun:** DEINIOLLEN: Merched y Wawr yng Nglynllifon.
16. **Mawrth:** LLANRUG: Cyfarfod Agoriadol y Gymdeithas Undebol yng Nghapel Pontrhythallt gyda Mrs Mary Vaughan Jones, 7.00 pm
17. **Mercher:** LLANRUG: Plaid Cymru — Arddangosfa o Waith Llaw gan Eirian Pritchard yn y

- Sefydliad Coffa; LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr — Parti Rhyd, 7.30.
18. **Iau:** LLANRUG: Cymdeithas Chwiorydd Pontrhythallt, 2.00 pm; LLANRUG: Noson Goffi, Ystafell y Seindorf 7.00 pm.
21. **Sul:** BRYNREFAIL: Gŵyl Diolchgarwch; PENISARWAUN: Gŵyl Diolchgarwch Eglwys Santes Helen.
22. **Llun:** PENISARWAUN: Ffair Gynhaef, Neuadd yr Eglwys am 6.30.
26. **Gwener:** DEINIOLLEN: Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi, Capel Ebeneser, 6.00.
27. **Sadwrn:** DEINIOLLEN: Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi, Capel Ebeneser, 12.00 a 6.00.
29. **Llun:** WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan, 7.30. I annerch — Ted Breese Jones.
30. **Mawrth:** CWM Y GLO: Cwis Gwybodaeth Gyffredinol gyda Mr Brian Jones.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

GWASANAETHAU ARIANNOL

ERYRI

FINANCIAL SERVICES



41B STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 872003



Guardian
Royal
Exchange

Intero

CHWARAEON

PELDROED Y GYNGHRAIR

Bwriedir unwaith eto eleni gyhoeddi ar y dudalen ôl luniau'r timau sy'n cynrychioli pentrefi'r ardal yn eu gwahanol gynghreiriau. Yn ystod y misoedd nesaf, felly, byddwn yn cynnwys cynrychiolwyr o gynghreiriau Gogledd Cymru (tîm cyntaf Llanberis), Gwynedd (tîm cyntaf Llanrug) a Chaernarfon a'r Cylch (Deiniolen ac ail dimau Llanberis a Llanrug).



Carfan tîm cynghrair Gwynedd, Llanrug, fel y gwelir yn y llun a ganolbwyntir arno y mis hwn, ac mae'n cynnwys y gôl geidwad Gareth Parry, Gwilym Williams a Michael Roberts (y ddau olaf yn absennol o'r llun). Y chwaraewyr eraill yw John Williams, Dilwyn Roberts, Garry Evans, David Phillips, Gwyn Davies, Adrian Wakeham, Dilwyn Morris, Dilwyn John Williams, Emlyn Jones, Richard Williams, Jamie Richardson a Peter Roberts. Yn absennol o'r llun hefyd mae Wayne Owen, Nigel Jacks a Dewi Williams. Dafydd Owen a Hywyn Jones yw'r rheolwyr, a Maxi, neu G. P. Jones i roi ei enw bedydd iddo yw'r Doctor Dŵr.

Capten y tîm yw Adrian Wakeham, ac er ei fawr syndod, cyn y gêm gwpan yn erbyn Llandudno dydd Sadwrn, Medi 22, fe'i anrhegwyd â thlws hardd gan Bryn Davies, Ysgrifennydd y Clwb, am bum mlynedd o wasanaeth di-dor.

Bu cryn waith ar y cae yn ystod y mis, gydag arbenigwyr yn cael eu cyflogi i ailosod y tywod a'r tywyrch ar ben y traeniau sy'n ei sychu. Gobeithir y bydd hyn yn gymorth i'r glaswellt dyfu drostynt.



LLAI O SYMS, PLIS!

Ia, cwyno am y ffaith fod ambell gwestiwn â blas rhifydddeg arno'n ymddangos yn y cwis bob hyn a hyn wnaeth un darllenwr yn ystod y mis, ac fe dreuliais rhai munudau'n ei berswadio mai 99 yw'r unig rif dau ddigid na ellir ei gael drwy daflu dwy ddart. Oes angen perswadio ar rhywun arall? Cymerwch 97, er enghraifft, gellir cael hwn gyda 'dwbl top' a 'threbl neinteen', a 98, sef 'trebl top' a 'dwbl neinteen' ydi'r mwyafrif.

Dyma atebion y gweddill:

Tom Greveney oedd y cricedwr cyntaf ar ôl yr ail ryfel byd i sgorio cant o gannoedd. Tim Rygbi **Llanelli** ydi'r 'Scarlets', a 6 'giat' sydd ar y lawnt croquet. **Caeredin (Edinburgh)** yw'r unig ddinas sydd wedi cynnal Gemau'r Gymanwlad ddwywaith, a bydd prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn cystadlu am y Bowring Bowl ar y maes **Rygbi**. Fe dorodd **Mark Spitz** o UDA 26 record byd wrth nofio rhwng 1967 a '72, a **Colchester** yw'r tîm peldroed sy'n chwarae ar Layers Road. Fe sgoriodd **Nigel, Clough** dair gôl mewn pedwar munud yn erbyn QPR yn 1987, a **Notts County** (a ffurfiwyd yn 1862) yw'r tîm hynaf yn y gynghrair beldroed.

A dyma ddeg arall i'w hystyried yn ystod mis Hydref — ac nid oes angen gwneud syms ar yr un ohonynt!

1. Pa chwaraewr snwcer enwog fu unwaith yn focsiwr proffesiynol?
2. Pa seren enwog o Hollywood ddaeth yn ail yn y ras foduron 24 awr yn Le Mans yn 1979?
3. Pa beldroediwr sgoriodd chwech 'hat trick' i Chelsea yn nhymor 1960-61?
4. Ar ba ynys y ganwyd cricedwr Sir Forgannwg Viv Richards?
5. Ym mha gamp fu'n Cymro Leighton Rees yn bencampwr byd yn 1978?
6. Pa dîm peldroed yw'r 'Trotters'?
7. Pa dîm peldroed enillodd gwpan amatur Lloegr a'r cwpan FA yn y 25 mlynedd diwethaf?
8. Pwy oedd y ferch gyntaf i reidio yn y Grand National yn 1977?
9. Pa dair dinas sydd wedi cynnal y Gemau Olympaidd ddwywaith?
10. Y mae un tîm criced na cholodd yr un gêm gartref rhwng 1978 a 1988. Pwy?

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL PELDROED

Bu'r tymor eisoes yn llwyddiannus i Gavin Allen o Ddeiniolen, sydd, mae'n ymddangos, am ddilyn ôl traed Malcolm ei frawd trwy wneud ei farc ar y gêm.

Yn ystod gwyliau'r haf bu'n mynychu cwrs o hyfforddiant i oreuon bechgyn Cymru dan 15eg oed yn Aberystwyth, a bu ar dreialon ym Manchester United (dan ofalaeth Nobby Stiles), Sheffield Wed, Tranmere Rovers ac Everton.

Ddechrau mis Medi bu'n chwarae i dîm Gwynedd yn erbyn Ysgolion Clwyd, ac yna i dîm Gogledd Cymru, ac o'r diwedd, yn dilyn cyfres o gemau eraill, ar Fedi'r 22ain yn Llanellwyr fe'u hysbyswyd ei fod yn aelod o garfan o ugain fydd yn cael eu hyfforddi gan Dai Davies gyda'r bwriad o ddewis y tîm cenedlaethol dan 15eg oed.

Bu Arwel Hughes (Deiniolen) ac Ian Hughes (Llanberis) yn chwarae i dîm bechgyn Hŷn Arfon yn erbyn ysgolion Meirionnydd ar Fedi'r 21ain. Er mai colli o 2-0 fu eu hanes deallir iddynt chwarae'n eitha' da ac maent yn gobeithio cael eu dewis i chwarae mewn gemau treial i ddewis tîm ysgolion Gwynedd.



NOFIO

Bu nifer o ddisgyblion yr Ysgol yn cystadlu mewn treialon rhanbarthol yn Llandudno ar Fedi 20, ac fe ddewiswyd y canlynol i fynd ymlaen i dreialon Gwynedd — Catrin Jones o Lanrug (nofio ar y cefn), a David Thomas o Ddeiniolen (nofio dull broga).

HOCI

Yn dilyn treialon i dîm hyn Arfon ym Mhwlheli fe ddewiswyd Louise Murphy i chwarae yn nhreialon Ysgolion Gwynedd yn Aberconwy ar Fedi 27.

GOLFF YN EI WAED!

Mae'r hen gêm golff 'ma wedi mynd i waed nifer o ardalyr bro'r Eco yn ddiweddar, ond fu neb, rwy'n siŵr, yn fwy llwyddiannus mewn tymor byr na Aled Roberts o Lanrug.

Mae'n ddisgybl pedwerydd dosbarth yn Ysgol Brynrefail, ac ers iddo ymaelodi â Chlwb St Deiniol, Bangor, ym mis Ionawr, fe enillodd darian Côr y Penrhyn (Adran yr Ifanc) ym mis Awst yn ei gystadleuaeth gyntaf ac yna Wobr Wright wythnos yn ddiweddarach.

Ym mis Medi daeth yn ail yng nghystadleuaeth y fedal misol i rai dan 18 oed, ac fel arwydd o'i fedr, daeth ei 'handicap' i lawr o'r 34 gwreiddiol i 19.

Nid golff yw ei unig gamp ychwaith, gan fod Aled yn chwaraewr canol cae medrus i dîm dan 16 oed Llanrug; mae'n chwarae criced i dîm ieuenctid Fron Dinas a snwcer i dduon Llanrug.



PYSGOTA — Adroddiad H. P. Hughes

Ar ôl hir ymaros, daeth rhyw ychydig o lawenydd yn ddiweddar pan gafwyd cawodydd trwm i godi lefel yr afonydd rhyw chwe modfedd dros y marc troelli. Dydd Gwener, 21 Medi daeth 14 o eogiaid i'r rhyd, i gyd o ardaloedd Bont Rhthallt a Phont Rug hyd at Lyn Garnage. Ni chodwyd yr un rhwng Pont Rug a llyn Garreg Fawr, Llanrug. Y sgotwyr llwyddiannus oedd Tom Brown, Caernarfon 3, tua 8 lbs; Bryn Griffiths, Caerthor 2 (un ohonynt yn 14 pwys); Ken Hughes, Caernarfon, James a Steven Carr, Llanrug, un yr un, tua 5 lbs.

Tawel iawn fu hi ar afonydd Gwyrfa'i a'r Llyfni, er fy mod wedi clywed fod Gwyndaf Jones, Bethel, yn dal ambell un ar y gwyrfa'i pan mae'r dŵr yn ffafriol, ond tydi o ddim am ddweud llawer am hyn.

Mae'r ddeorfa yng Nghrawia bron a chael ei chwblhau, gyda ond y llechi i'w gosod a thaluso'r safle. Diolch i'r ychydig, ac ychydig iawn oeddynt hefyd, o'r aelodau sydd wedi rhoi eu hysgwydd dan y baich.

Mawr yw'r edrych ymlaen at y tymor nesaf. Bydd y gymdeithas yn gosod cychod ar y llynnoedd ac yn gyntaf rhoi y bedair cwch y'u caniateir dan y brydles ar llyn Dywarchen. Wrth gwrs, bydd yn rhaid codi tâl ychwanegol ar yr aelodau fydd yn dymuno eu defnyddio. Caiff pob aelod fanylion pellach am y dull o ranu'r dyddiau pysgota ar y cychod, ynghyd â'r gost gyda rhaglen y pwyllgor blynyddol fydd yn cael ei ddosbarthu yn ystod Tachwedd.

Rwyf wedi cael nifer o gwynion am aelodau yn ffonio yr awdurdodau anghywir i gwyno am potsio a phethau eraill. Y rhif cywir yw: Awdurdod Afonydd, Highfield, Caernarfon. Ffôn Caernarfon 672247.